# *Addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: amrywiaeth mewn Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol*

Dr Sarah Olive, Prifysgol Aston
Mrs Gwawr Maelor, Prifysgol Bangor
Dr Mary Davies, Prifysgol Bangor

## CRYNODEB

Mae'r erthygl hon yn rhannu canfyddiadau ar ba lenyddiaethau a addysgir mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, a pham, o arolwg o bedwar deg saith o athrawon ledled Cymru yn 2022. Roedd ein cyfranogwyr yn addysgu llenyddiaethau ym mhynciau Cymraeg, Saesneg, drama, Ffrangeg a Sbaeneg. Mae hyn yn cynrychioli agwedd drawsddisgyblaethol a lluosieithog at lenyddiaethau mewn ysgolion yng Nghymru sy'n gwahaniaethu'r ymchwil hon o blith astudiaethau blaenorol. Mae'r ymchwil yn ymwneud yn agos ag amrywiaeth ethnig a rhywedd awduron o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a chymdeithas. Mae'r canlyniadau'n dangos bod menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli fel awduron barddoniaeth a dramâu, a nofelau i raddau ychydig llai. Mae'r gynrychiolaeth ychydig yn well mewn astudiaethau llenyddol Cymraeg na rhai Saesneg. Dim ond llond llaw o Awduron o Liw a addysgwyd: mae'r rheiny ymhlith y testunau Saesneg a Ffrangeg yn unig. Ni addysgwyd unrhyw destunau Cymraeg gan Awduron Lliw. Mae ein trafodaeth yn rhoi cyd-destun i'r diffyg amrywiaeth cyffredinol wrth addysgu llenyddiaethau yng Nghymru – sy'n peryglu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru Wrth-hiliol 2030 ac addysgu hanes a phrofiadau BAME – drwy gymariaethau ag ymchwil ryngwladol. Mae'n cloi drwy amlinellu argymhellion i'r llywodraeth, i gyhoeddwyr, i ysgolion ac i athrawon o

*https://doi.org/10.16922/wje.26.1.5cym*

ran hyfforddiant, adnoddau a chynllun y cwricwlwm, yn ogystal â meysydd ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

**Geiriau allweddol:** llenyddiaeth, amrywiaeth, ysgol uwchradd, rhywedd, ethnigrwydd, Cymraeg, Saesneg, drama, Cymru

Mae'r erthygl hon yn rhannu canfyddiadau ar ba lenyddiaethau a addysgir mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, a pham, o arolwg o athrawon fel rhan o brosiect mwy ar 'Addysgu llenyddiaethau yn ystod y pandemig byd-eang: effeithiau ar ysgolion uwchradd yng Nghymru'. Yn un o ddeunaw prosiect Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r adferiad Covid yng Nghymru, ymchwiliodd i effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ac yn rhyngwladol, o ran awduron a thestunau, dibenion addysgwyr a gweledigaethau ar gyfer addysgu llenyddiaethau. Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn a gweminar sy'n seiliedig arno ar wefan Hwb (2023). Mae'r erthygl hon yn ateb yr is-gwestiynau canlynol o'r prosiect mwy hwnnw:

1. Pa destunau llenyddol a addysgir mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru?
2. Pa mor amrywiol yw'r testunau llenyddol a addysgir, o ran rhywedd ac ethnigrwydd yr awduron?[1]
3. Pwy sy'n dewis y testunau a addysgir?
4. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis o destunau?

Mewn perthynas â'r cwestiwn olaf, er i ni ofyn hyn i athrawon yn ddi-gafeat er mwyn ennyn *eu canfyddiad* o'r ffactorau dan sylw, dylid nodi, yn yr erthygl hon drwyddi draw, fod byrddau arholi yn llunio'r rhestr gyntaf o destunau y gellir eu hastudio ar gyfer cymwysterau (TGAU, Safon Uwch). Mae dewisiadau eraill – a wneir wedi hynny gan adrannau, athrawon, a disgyblion – bron yn ddieithriad yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r testunau gosod hyn. Ar ben hynny, mae'r testunau gosod hyn a ddewisir yn dylanwadu ar y dewis o destunau yng CA3, wrth i athrawon geisio osgoi ailadrodd yr un testunau gyda'r un garfan; darparu dilyniant priodol tuag at destunau TGAU a Safon Uwch; a chwmpasu hefyd y testunau sydd wedi eu dileu o'r rhestrau TGAU i'w haddysgu yng CA3 (ailgylchu'r llyfrau, yr

adnoddau a'r arbenigedd sydd eisoes ar gael er mwyn bod yn effeithlon).

## *1. Cyd-destun*

Cafodd polisi addysg yng Nghymru ei ddatganoli o San Steffan i Lywodraeth Cymru ym 1999. Gan nodi'n gryf y gwahaniaeth rhyngddo a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr o ran ei deitl a'i gynnwys, cychwynnwyd ar y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022. Mae'n gofyn i ysgolion unigol ddylunio a chyflwyno cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w myfyrwyr gan hefyd fodloni 'pedwar diben' addysg ar draws chwe Maes Dysgu a Phrofiad (ffordd o drefnu addysg a bwysleisir yn nogfennau'r cwricwlwm dros bynciau penodol, er y gall ysgolion gadw'r rhain o hyd). Nid yw'r cwricwlwm newydd yn cael ei drefnu yn ôl Cyfnodau Allweddol, yn wahanol i'w ragflaenwyr. Bydd myfyrwyr yn dal i sefyll TGAU, er y bydd eu cynnwys yn newid i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae'r erthygl hon ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, ar draws y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, yn seiliedig ar ymchwil a wnaed wrth symud o'r hen gwricwlwm i'r un newydd. Roedd yr athrawon a gymerodd ran yn paratoi i'w weithredu ac mae rhai o'u hymatebion yn adlewyrchu eu cynllunio ar ei gyfer. Fodd bynnag, digwyddodd yr addysgu y maent yn ei ddisgrifio o dan yr hen system.

Mae 'llenyddiaeth' yng nghyd-destun addysg ysgol fel arfer yn disgrifio gweithiau ysgrifenedig o'r dychymyg, yn cynnwys barddoniaeth, drama, a rhyddiaith. Yng Nghymru a thu hwnt, eglurwyd pwysigrwydd addysgu llenyddiaeth o ran ei chysylltiad cryf â sgiliau llythrennedd, iaith, cyfathrebu a dadansoddi, mynediad i'r cwricwlwm cyfan, ac o ganlyniad addysg a chyflogaeth ar ôl addysg ffurfiol (HMSO 1985, HMSO 1989, Dyer, Arslan et al, Rosser 6). Y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg, mae drama ac ieithoedd rhyngwladol, megis Sbaeneg a Ffrangeg, hefyd yn cynnwys elfen o lenyddiaeth. Felly mae'r erthygl hon yn cyfeirio at lenyddiaethau yn y lluosog. O ran y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, mae rôl i lenyddiaeth yn 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' a'r 'Celfyddydau Mynegiannol'. Gwelir tystiolaeth o'r gwerth a roddir gan Lywodraeth Cymru i bynciau cyfoethog o ran llenyddiaeth yn un o nodau'r Cwricwlwm i Gymru, sef helpu dysgwyr i 'feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth'

(Llywodraeth Cymru, 2019). Mae Rosser yn cysylltu llenyddiaeth plant Cymru â pholisïau eraill y llywodraeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Cymraeg 2050 (6). Yn ehangach, mae astudio llenyddiaethau o fudd i iechyd a lles myfyrwyr yn ogystal â bywiogrwydd diwydiannau llenyddol a diwylliannol gwlad (Donaldson 48, Rosser 6). Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n astudio llenyddiaeth Saesneg ar lefel uwch yn yr ysgol uwchradd ac mewn addysg uwch wedi bod yn dirywio mewn gwahanol wledydd, felly hefyd y nifer sy'n astudio'r hyn y mae Cymru'n ei alw'n ieithoedd rhyngwladol ar draws pedair gwlad y DU rhwng 14 a 16 oed (Elliott, Olive et al., Broady).

Roedd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod y pandemig byd-eang yn cyd-daro â galwadau i 'amrywiaethu'r cwricwlwm'. O ran llenyddiaethau, mae hyn yn cyfeirio'n gyffredinol at ehangu'r ystod o awduron a thestunau a addysgir, yn enwedig rhywedd, ethnigrwydd, a nodweddion gwarchodedig eraill (yng nghyd-destun y DU) yr awduron a'r cymeriadau a gynrychiolir – er bod diffiniadau llawnach yn cwmpasu amrywiaethu deilliannau dysgu bwriedig, addysgegau ac asesiadau. Mae 'amrywiaethu' yn derm dadleuol oherwydd ei fod yn parhau'r syniad o arallrwydd o safbwynt Gwyn dominyddol, er mai pobl o liw yw'r mwyafrif byd-eang mewn gwirionedd (Ramdarshan Bold 17). Mae'r erthygl hon yn defnyddio 'amrywiaethu' yn hytrach na thermau amgen fel aml-ethnig, amlddiwylliannol neu gynhwysol oherwydd bod y term yn gyfarwydd i athrawon a rhanddeiliaid, oherwydd ei ddefnydd eang mewn ymgyrchu a pholisi.

Beth yw'r sail dystiolaeth ar gyfer y galwadau i amrywiaethu'r cwricwlwm? Dyma rai ystadegau dangosol am rywedd ac amrywiaeth ethnig wrth addysgu ac asesu llenyddiaeth o wahanol rannau o'r DU o 2019 ymlaen:

- Nid yw 65 y cant o ysgolion yn dysgu unrhyw destunau llenyddol gan awduron benywaidd yn ystod tair blynedd CA3 (Lloegr, ymgyrch End Sexism in Schools a ddyfynnwyd yn Fenn, 2022b);
- Addysgwyd rhwng un a thri awdur benywaidd yng CA3 (De-orllewin Lloegr a Chymru, Kneen 3);
- O'r testunau gosod ar gyfer arholiadau disgyblion 16 oed, cyn y diweddariad diweddaraf gan Pearson yn 2019, roedd dewis o 69 o destunau gan awduron gwrywaidd (66 y cant) a 36 o destunau gan awduron benywaidd (34 y cant) (Y DU, Elliott 2017);
- Mae dynion gwyn, dosbarth canol yn dominyddu testunau llenyddol a addysgir ac a asesir mewn ysgolion. Gwnaeth llai na 7 y cant o ymgeiswyr

TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn 2019 ateb ar nofel neu ddrama lawn gan fenyw (Lloegr, Elliott et al 4, 25);
- Malorie Blackman oedd yr unig Awdur o Liw i ymddangos mewn rhyddiaith; John Agard a Maya Angelou oedd yr unig feirdd o liw; a doedd dim dramâu gan Awduron o Liw yn cael eu haddysgu yng CA3 (De-orllewin Lloegr a Chymru, Kneen 3);
- Roedd 82 y cant o ymatebwyr yr arolwg ieuenctid ddim yn gallu cofio iddynt erioed astudio testun gan awdur Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (Lloegr, Elliott et al 6);
- Yn 2019, atebodd llai nag 1 y cant o ymgeiswyr TGAU Llenyddiaeth Saesneg gwestiwn ar nofel gan awdur o liw; 0.1 y cant ar nofel gan fenyw o liw (Lloegr, Elliott et al 4, 6).

Mae Elliott et al. yn gwneud y dadleuon canlynol am arwyddocâd y diffyg amrywiaeth o ran rhywedd, ethnigrwydd a dosbarth yn y cwricwlwm (nid oedd yr olaf yn ffocws yn ein hastudiaeth):

- Mae'r diffyg cynrychiolaeth ar hyn o bryd yn awgrymu mai dim ond safbwyntiau gwyn, gwrywaidd, dosbarth canol sy'n werth eu darllen a'u hastudio. Mae'n hanfodol i iechyd y pynciau hyn ac i'r bobl ifanc sy'n eu hastudio bod yr ystod ehangaf bosibl o fyfyrwyr yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn y llenyddiaeth a addysgir;
- Mae diffyg cynrychiolaeth nid yn unig yn niweidiol i ddysgwyr o gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio'n hanesyddol, ond mae hefyd yn rhwystro myfyrwyr rhag dysgu am safbwyntiau, diwylliannau, crefyddau ac ethnigrwydd eraill [2];
- Mae cwricwlwm monolithig yn atal myfyrwyr rhag astudio cyfiawnder o ran hil a rhywedd a datblygu lens i feirniadu gormes, sy'n bethau y gall cwricwlwm amrywiol eu cynnig.

Astudiaethau ar lenyddiaeth Saesneg yn unig yw'r rhain. Mae ein harolwg yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar Gymru ac mae'n cynnwys llenyddiaethau yn y Gymraeg, Saesneg, Sbaeneg a Ffrangeg. Mae'n anodd dod o hyd i ymchwil a ffigurau ar amrywiaeth mewn testunau mewn lleoliadau addysgol Cymraeg, a thestunau Cymraeg i blant, o leiaf yn Saesneg. Mae hyd yn oed gwefan Llenyddiaeth Cymru yn cyfeirio at *Reflecting Realities* DU gyfan CLPE, cyfres o adroddiadau o 2017 ymlaen. Mae'r prinder hwn yn golygu bod ein herthygl yn defnyddio llond llaw o astudiaethau o Loegr, neu Gymru a Lloegr, i gynnig pwyntiau cymharu.

Fodd bynnag, roeddem wedi gallu nodi a defnyddio rhai adroddiadau yn benodol gan Lywodraeth Cymru ac elusennau yng Nghymru: roedd y rhai gan Siwan Rosser (2017), Charlotte Williams (2021), a Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth (DARPL, 2023) yn arbennig o ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid oes yr un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar lenyddiaethau mewn addysg. Mae gwaith presennol yn tueddu i gynnig adroddiadau ar gyflwr y genedl am lenyddiaeth, caffael a defnyddio iaith, neu bolisi diwylliannol, yn hytrach na dangos yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion – ac eithrio astudiaethau achos byr DARPL gan ysgolion, athrawon ac uwch arweinwyr unigol.

## *2. Dulliau*

Derbyniodd ein prosiect gymeradwyaeth foesegol gan yr Ysgol Gwyddorau Addysg, Prifysgol Bangor. Ym mis Mawrth 2022, aethom ati i gyflwyno ein cynllun prosiect i'r Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol: Addysg Ddwyieithog a'r Gymraeg. Roedd yn ffordd o dreialu cwestiynau'r arolwg o flaen law, er eu bod wedi cael eu dilysu cynt yn y ddwy astudiaeth ddiweddar y cawsant eu haddasu ohonynt, a ddewiswyd am mai dyma'r archwiliadau cyfredol diweddaraf a mwyaf cynhwysfawr o addysgu llenyddiaeth yn y DU (Elliott ac Olive, 2019 a 2023, Kneen et al., Kneen). Gan ddefnyddio JISC, aethom ati i ddosbarthu arolwg ar-lein dienw, yn Gymraeg a Saesneg, i 164 o benaethiaid mewn ysgolion uwchradd cyfun y wladwriaeth ledled Cymru trwy'r consortia ysgolion rhanbarthol[3]. Gofynnwyd i benaethiaid rannu'r arolwg gydag addysgwyr perthnasol rhwng Mawrth a Mehefin 2022. Gallai cyfranogwyr ymateb naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Casglodd yr arolwg ystadegau syml a data ansoddol am ddemograffeg cyfranogwyr, yr awduron a'r testunau a addysgir yn nhri chyfnod yr ysgol uwchradd (CA3, TGAU a Safon Uwch), sut a pham y dewisir testunau, barn athrawon ar bwysigrwydd, dibenion a gweledigaethau addysgu llenyddiaethau, cyn ac ar ôl y pandemig.

Dadansoddwyd y data ansoddol yn thematig mewn proses ailadroddol gan ddefnyddio adolygiad o'r ymchwil bresennol ac ymchwil flaenorol Olive (Elliott ac Olive, 2019 a 2023). Gweithiodd Davies ar y data ansoddol yn Gymraeg ac Olive ar y data ansoddol yn Saesneg. Roedd dwyieithrwydd Davies yn golygu ei bod hi hefyd yn gallu codio rhywfaint o ddata yn Saesneg ac yna'i gymharu â gwaith codio Olive ar

yr un data. Roedd y drafodaeth ddilynol yn sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl yn eu codio ar draws y ddwy set ddata sy'n wahanol yn ieithyddol. Cyfrannodd Maelor at ddrafft terfynol adroddiad Llywodraeth Cymru. Yn benodol, bu'n cynghori ar faterion yn ymwneud â Chymraeg iaith a llenyddiaeth Gymraeg, ei maes arbenigedd.

Mae'r cyfyngiadau, rhai daearyddol yn bennaf, yn natur gynrychiadol ein sampl yn cynrychioli'r her o ddenu cyfranogwyr o broffesiwn sy'n dal i adfer ar ôl gorfod addasu i'r pandemig byd-eang, a'r profiad ohono, yn fuan wedi'r pandemig. Mae'n bosibl bod yr athrawon a gwblhaodd ein harolwg yn fwy gwydn a brwdfrydig na'r cyffredin. Er hynny, hwyrach eu bod wedi colli diddordeb yn rhannau diweddarach yr arolwg. Ymddengys bod hyn wedi cael effaith negyddol ar atebion ynghylch barddoniaeth TGAU yn arbennig. Yn unol â llawer o ymchwil addysgol dulliau cymysg, roedd yn rhaid i ni fod yn bragmataidd a blaenoriaethu trosglwyddadwyedd dros gyffredinolrwydd. Mae cyffelybrwydd ein canfyddiadau ag astudiaethau tebyg yn cynnig rhywfaint o sicrwydd. Mae ein dulliau wedi'u nodi'n fwy manwl yn ein hadroddiad, sydd hefyd yn cynnwys yr offeryn arolwg a ddefnyddiwyd (Olive et al).

Gallai astudiaethau yn y dyfodol ystyried prynu amser athrawon fel y gallant neilltuo amser gwaith i'r arolwg a/neu ystyried ffyrdd o gofnodi'r hyn a addysgir yn haws e.e. caniatáu i athrawon gyflwyno dogfennau a delweddau o'r testunau y maent yn eu haddysgu, yn hytrach na theipio'r manylion hyn. Gallai hyn hefyd wella cywirdeb gan fod camgymeriadau achlysurol yn enwau'r awduron a thestunau a gyflwynwyd. Llwybrau eraill y gellid eu harchwilio yw edrych ar amrywiaeth rhywedd ac ethnigrwydd cymeriadau yn ogystal ag anabledd, dosbarth a rhywioldeb (mae CLPE yn canolbwyntio'n unswydd ar ethnigrwydd cymeriadau). Gellid ailadrodd yr astudiaeth hon nawr bod y Cwricwlwm newydd i Gymru ac addysgu gorfodol am hanes a phrofiadau BAME wedi eu sefydlu'n well mewn ysgolion na phan gasglwyd ein data. Gallai ymchwil o'r fath hefyd geisio archwilio effaith newidiadau gan y byrddau arholi i gymwysterau a thestunau gosod.

## *3. Demograffeg cyfranogwr*

Cwblhawyd yr arolwg gan 47 o addysgwyr o 30 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn gweithio mewn 19 cod post (allan o 243). De Cymru oedd â'r gynrychiolaeth fwyaf o ran ymatebion, a

**Tabl 1: Ysgolion a gynrychiolir yn yr astudiaeth yn ôl maint**

| *Maint yr ysgol* | *Nifer yr athrawon a gymerodd ran* |
|---|---|
| **1,101 disgybl neu fwy** | 19 |
| **601–1,100 o ddisgyblion** | 24 |
| **600 disgybl neu lai** | 3 |
| **301–600 o ddisgyblion** | 0 |
| **101–300 o ddisgyblion** | 1 |
| **100 o ddisgyblion neu lai** | 0 |

Gogledd Cymru yn ail. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan ysgolion yng Ngheredigion, Powys, Sir Benfro, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Cafwyd clwstwr o ddau athro neu fwy yn gweithio yn yr un ysgol, yn debygol ar bynciau gwahanol sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth, ar draws 75 y cant o'r ysgolion a gymerodd ran. O ran maint yr ysgol, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gweithio mewn ysgolion mwy poblog, gydag ychydig iawn ohonynt wedi'u lleoli mewn rhai canolig neu fach. Nid yw ein canlyniadau, felly, yn cynrychioli ysgolion llai cystal â'r rhai mwy.

Ymatebodd tua hanner y cyfranogwyr yn Gymraeg (51 y cant, n.24) a hanner yn Saesneg (49 y cant, n.23). Roedd nifer debyg yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Roedd llai o ymatebwyr o ysgolion o fathau iaith eraill: saith o ysgolion math B dwyieithog, chwech o ysgolion math A dwyieithog, a dau o Ffrwd Ddeuol. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr yn nodi eu bod yn gweithio mewn ysgolion dwyieithog math C, Saesneg gyda Chymraeg sylweddol, neu ysgolion pontio[4]. Roedd y cyfranogwyr yn tueddu i fod yn Benaethiaid Adran (n.26). Efallai, fel arweinwyr pwnc, mai nhw oedd yr ymatebwyr mwyaf priodol yn nhyb yr ysgol. Y categori nesaf oedd 'deiliaid cyfrifoldeb pwnc islaw'r Pennaeth Adran' (n.13), athro dosbarth ôl ANG (n.7) ac un ANG. Nid oedd unrhyw gyfranogwr mewn hyfforddiant athrawon ar y pryd. Mae'r cyfranogwyr yn cynrychioli addysgwyr sy'n cwmpasu pob hyd o wasanaeth yn y proffesiwn addysgu, o un i 33 mlynedd, er bod llai o ymatebion wedi dod gan y rhai ar ddechrau eu proffesiwn, neu rai â mwy na phedwar degawd o brofiad yn eu proffesiwn. Roedd tri chyfranogwr wedi bod yn addysgu ers dros 30 mlynedd; 11 am 21–30 mlynedd; 19 am 11–20 mlynedd; 14 am lai na 10 mlynedd. Roedd y

**Tabl 2: Pynciau a addysgir yn ôl grŵp blwyddyn**

| *Blwyddyn* | *Cymraeg* | *Saesneg* | *Drama* | *Ffrangeg* | *Sbaeneg* | *Arall* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bl 7** | 18 | 10 | 7 | 4 | 3 | 2 |
| **Bl 8** | 18 | 10 | 6 | 3 | 2 | 4 |
| **Bl 9** | 18 | 9 | 7 | 4 | 2 | 1 |
| **Bl 10** | 19 | 12 | 6 | 3 | 2 | 7 |
| **Bl 11** | 18 | 13 | 6 | 3 | 2 | 6 |
| **Bl 12** | 10 | 7 | 3 | 2 | 1 | 6 |
| **Bl 13** | 10 | 7 | 3 | 1 | 1 | 4 |

rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn addysgu Cymraeg, Saesneg a drama; roedd rhai yn addysgu Sbaeneg a Ffrangeg; addysgai rhai bynciau megis astudiaethau'r cyfryngau a ffilm hefyd (gweler Tabl 2). Gwnaethom hefyd ofyn am Almaeneg, ond nid oedd yr un o'r cyfranogwyr yn ei haddysgu.

### *4. Awduron a thestunau a addysgir*

Wrth ateb cyfres o gwestiynau megis 'os ydych chi'n addysgu yng CA3 (hyd at 14 oed)/TGAU/Safon Uwch, pa destunau llenyddol ydych chi'n eu haddysgu?', atebodd y cyfranogwyr fel a ganlyn ar gyfer rhyddiaith, barddoniaeth a dramâu. Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer pob cyfnod a modd, gydag awduron a thestunau Cymraeg a Saesneg wedi'u gwahanu. Ym mhob tabl, rhestrir awduron a thestunau gan ddechrau gyda'r rhai a gafodd eu crybwyll amlaf. Rhoddir dyddiad cyhoeddi gyntaf (weithiau brasamcan ar gyfer gweithiau hŷn) ochr yn ochr â'r teitl i ddangos yr ystod o gyfnodau hanesyddol a gynrychiolir. Crynhoir canfyddiadau nodweddiadol am bob modd ar ddiwedd yr adrannau perthnasol. Adroddwyd nifer fwy o destunau Saesneg ar draws cyfnodau a moddau na thestunau Cymraeg. Gall hyn ddangos gogwydd oherwydd y duedd, mewn perthynas â barddoniaeth, i enwi blodeugerdd yn hytrach na thestunau neu feirdd unigol, amlygrwydd a phoblogrwydd cymharol y pynciau hyn, ac argaeledd gweithiau ym mhob iaith.

### *4.1 Rhyddiaith*

#### ***4.1.1 Rhyddiaith yng CA3/hyd at 14 oed***

**Tabl 3: Awduron rhyddiaith Gymraeg a addysgir yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Awduron yn y Gymraeg* | *Nifer y crybwylliadau* |
|---|---|
| Bethan Gwanas | 9 |
| Manon Steffan Ros | 6 |
| Tudur Dylan Jones | 5 |
| Eirug Wyn | 3 |
| T. Llew Jones | 3 |
| Gareth F. Williams | 2 |
| Gwyneth Glyn | 2 |
| Meinir Wyn Edwards | 1 |
| Pegi Talfryn | 1 |
| Rhiannon Ifans | 1 |
| Alan Gibbons | 1 |
| Nigel Hinton | 1 |
| Caryl Lewis | 1 |
| Bedwyr Rees | 1 |

**Tabl 4: Teitlau rhyddiaith Saesneg a addysgir yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Awduron Saesneg* | *Crybwylliadau* |
|---|---|
| Louis Sachar | 6 |
| Michael Morpurgo | 5 |
| Darren Shan (neu Shaugnessy) | 2 |
| Charles Dickens | 2 |
| Robert Swindells | 2 |
| HG Wells | 2 |

| *Awduron Saesneg* | *Crybwylliadau* |
|---|---|
| JK Rowling | 1 |
| Jewell Parker Knowles [*sic* Jewell Parker Rhodes?] | 1 |
| Elizabeth Laird | 1 |
| Charlotte Perkins Gilman | 1 |
| Suzanne Collins | 1 |
| SE Collins [*sic* SA Collins?] | 1 |
| Susan Hill | 1 |
| Andy Mulligan | 1 |
| Neil Gaiman | 1 |
| JRR Tolkien | 1 |
| Alan Garner | 1 |
| Rudyard Kipling | 1 |
| Horace Walpole | 1 |
| Roald Dahl | 1 |
| David Almond | 1 |
| John Boyne | 1 |
| William Golding | 1 |
| Bram Stoker | 1 |
| Arthur Conan Doyle | 1 |
| Bill Bryson | 1 |
| John Steinbeck | 1 |
| George Orwell | 1 |
| 'Wedi'u haddasu o straeon' | 1 |
| 'Amrywiol' | 1 |
| 'Dim' | 1 |

Atebodd 28 allan o 47 (60 y cant) o'r cyfranogwyr y cwestiwn hwn. Roedd nifer yr awduron yn amrywio o 'ddim' (ymateb athrawon ieithoedd rhyngwladol efallai) i naw, er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi rhestru un i dri awdur. Enwyd 12 o awduron

benywaidd, allan o 43 i gyd: llai na thraean. Ymhlith yr awduron Cymraeg, mae saith yn fenywod: ychydig o dan eu hanner. Ymhlith yr awduron Saesneg, mae pump yn fenywod: llai na phumed. Mae un awdur Saesneg yn Ddu – Jewell Parker Rhodes (a gamnodwyd yn rhannol gan yr ymatebydd). Gwyn yw'r awduron eraill, a'r holl rai Cymraeg. Nodwyd poblogrwydd aruthrol Morpurgo a Sachar, ac i raddau llai, Boyne, Dahl, Almond, Orwell, Dickens, Rowling, Steinbeck, Collins a Swindells, mewn arolwg tebyg gan Kneen (2).

**Tabl 5: Teitlau rhyddiaith Gymraeg a addysgir yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Teitlau Cymraeg* | *Dyddiad cyhoeddi* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| *Fi A Joe Allen* | 2018 | 5 |
| *Y Bancsi Bach* | 2013 | 5 |
| *Y Gelyn ar y Trên* | 2014 | 3 |
| *Llinyn Trôns* | 2000 | 3 |
| *Al* | 2014 | 2 |
| *Anji* | 2014 | 2 |
| *Mewn Limbo* | 2014 | 2 |
| *Sgôr* | 2002 | 2 |
| *Pen Dafad* | 2005 | 2 |
| *Ceri Grafu* | 2003 | 2 |
| *United!*[5] | 1996 | 2 |
| *Y Mabinogion / Chwedlau'r Mabinogi* | d.d./addaswyd 1980; 1993 | 2 |
| *Y Goeden sy'n Gwybod*[6] | d.d. | 1 |
| *Fi ac Aaron Ramsey* | 2021 | 1 |
| *Mis yr Ŷd* | 2021 | 1 |
| *Powdr Rhech* | 2011 | 1 |
| *Iawn Boi* | 2003 | 1 |
| *Isio Bet?* | 2005 | 1 |
| *Chwedl Cantre'r Gwaelod* | d.d. | 1 |

| *Teitlau Cymraeg* | *Dyddiad cyhoeddi* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| *Llofrudd y Camera* | 2012 | 1 |
| *Stori Eli Brown* | d.d. | 1 |
| *Nes ei gael yn Euog* | 2012 | 1 |
| *Ar fy mhen fy hun* | d.d. | 1 |
| *Am Ddiwrnod* | 2018 | 1 |
| *Gangsters yn y Glaw* | 2021 | 1 |
| *Stryd y Bont* | 2018 | 1 |

**Tabl 6: Teitlau rhyddiaith Saesneg a addysgir yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Teitlau Saesneg* | *Dyddiad cyhoeddi* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| *Holes* | 1998 | 6 |
| *Private Peaceful* | 2003 | 4 |
| *Cirque du Freak* | 2009 | 2 |
| *Stone Cold* | 1993 | 2 |
| *The Boy in the Striped Pyjamas* | 2006 | 2 |
| *The Red Room* | 1894 | 2 |
| *Harry Potter and the Philosopher's Stone* | 1997 | 2 |
| *Ghost Boys* | 2011 | 1 |
| *Trash* | 2010 | 1 |
| *Running Wild* | 2009 | 1 |
| *The Hunger Games* | 2008 | 1 |
| *The Garbage King* | 2003 | 1 |
| *Skellig* | 1998 | 1 |
| *Notes from a Small Island* | 1995 | 1 |
| *Boy* | 1984 | 1 |
| *The Woman in Black* | 1983 | 1 |
| *War Horse* | 1982 | 1 |

| *Teitlau Saesneg* | *Dyddiad cyhoeddi* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| *The Outsiders* | 1967 | 1 |
| *The Weird Stone of Brisingamen* | 1960 | 1 |
| *Lord of the Flies* | 1954 | 1 |
| *The Hobbit* | 1937 | 1 |
| *Of Mice and Men* | 1937 | 1 |
| *The War of the Worlds* | 1897 | 1 |
| *Dracula* | 1897 | 1 |
| *The Jungle Book* | 1894 | 1 |
| *The Yellow Wallpaper* | 1892 | 1 |
| *The Speckled Band* | 1892 | 1 |
| *A Christmas Carol* | 1843 | 1 |
| *Oliver Twist* | 1838 | 1 |
| *The Castle of Otranto* | 1764 | 1 |
| *Three Little Pigs* | d.d. | 1 |
| *Celtic Myths and Legends* | d.d.[7] | 1 |
| *Animal Farm* | 1945 | 1 |

Naw ar hugain o blith 47 (62 y cant) o'r cyfranogwyr atebodd y cwestiwn hwn. Enwodd pob un rhwng un a deg teitl, ond enwodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr rhwng un a thri. Nofelau byrion oedd y rhan fwyaf. Mae'r testunau Saesneg yn cyfuno cymysgedd o 'glasuron', nofelau poblogaidd modern, a'r rhai ar gyfer plant neu oedolion ifanc yn benodol. Ymhlith y teitlau Cymraeg, mae bron pob testun o'r unfed ganrif ar hugain ac yn perthyn yn bennaf i'r categori llenyddiaeth plant neu oedolion ifanc. Ffuglen yw'r testunau a enwir bron yn ddieithriad, er bod llyfrau teithio hefyd yn ymddangos (*Notes from a Small Island* gan Bill Bryson). Yr atebion i'r cwestiwn hwn roddodd y nifer fwyaf o deitlau ar draws y ddwy iaith. Gallai hyn adlewyrchu poblogrwydd addysgu rhyddiaith o gymharu â barddoniaeth a dramâu (Bleiman 154); ymreolaeth athrawon i ddewis testunau eang ar y lefel hon (Kneen et al., Kneen); nifer yr athrawon a oedd yn addysgu ar y lefel hon (gweler Tabl 2); bod yr athrawon heb golli stêm wrth gwblhau'r arolwg ar y pwynt hwn; neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

### *4.1.2 Rhyddiaith ar lefel TGAU*

**Tabl 7: Teitlau rhyddiaith Gymraeg a addysgir ar lefel TGAU**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Bethan Gwanas | *Llinyn Trôns* | 2000 | 8 |
| Manon Steffan Ros | *Llyfr Glas Nebo* | 2018 | 4 |
| Geraint Vaughan Jones | *Yn Y Gwaed* | 1990 | 4 |
| Mererid Hopwood | *O Ran* | 2009 | 3 |
| Eirug Wyn | *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* | 2009 | 2 |
| Eleri Llywelyn | *Glanhau Ffenestri* | 2009 | 1 |
| Mihangel Morgan | *Pe Bai'r Wyddfa i Gyd yn Gaws* | 2009 | 1 |
| Emyr Llywelyn[8] | Casgliad o straeon byrion | d.d. | 1 |
| Alun Jones | *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* | 1979 | 1 |

**Tabl 8: Teitlau rhyddiaith Saesneg a addysgir ar lefel TGAU**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| John Steinbeck | *Of Mice and Men* | 1937 | 12 |
| Robert Cormier | *Heroes* | 1998 | 7 |
| Harper Lee | *To Kill A Mockingbird* | 1960 | 4 |
| Charles Dickens | *A Christmas Carol* | 1843 | 4 |
| William Golding | *Lord of the Flies* | 1954 | 1 |

Ymatebodd 26 o 47 (55 y cant) o'r cyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer yr awduron a'r teitlau a enwyd yn amrywio o 'dim' i dri, er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi rhestru dau. Roedd gostyngiad dramatig yn nifer y crybwylliadau unigryw o awduron a theitlau ar lefel TGAU, o gymharu â CA3. Yn hytrach, roedd ymatebion wedi'u clystyru

o gwmpas llond llaw o deitlau ac awduron – yn bennaf yn sgil nifer gyfyngedig y testunau a ragnodir gan fyrddau arholi a nodir yn yr erthygl hon drwyddi draw. Mae poblogrwydd digymar *Of Mice and Men* yn cyd-fynd â Kneen, a nododd mai hwn oedd y testun a ddarllenwyd amlaf yn yr ymatebion i'w arolwg, er bod hynny ar lefel is sef CA3 (2)[9]. Roedd Lee, Dickens a Golding hefyd yn boblogaidd gyda'i ymatebwyr, ac ni chrybwyllwyd ffuglen oedolion ifanc Cormier ganddo (2). Lle'r oedd mwy o amrywiaeth o awduron a thestunau Saesneg yng CA3, yma ceir mwy o amrywiaeth yn yr awduron a'r testunau Cymraeg.

Soniwyd am bum awdur benywaidd at ei gilydd: ychydig dros un rhan o dair. Enwyd tua phedair awdures Gymraeg ac un awdur benywaidd Saesneg[10]. Mae pob awdur yn wyn. Ffuglen yw pob testun, sy'n adlewyrchu ffocws yr arholiad ar y ffurf honno yn hytrach na ffurfiau eraill o ryddiaith. Gydag un eithriad, cyhoeddwyd y testunau Cymraeg yn y 1990au neu'r unfed ganrif ar hugain. Roedd y testunau Saesneg yn tueddu i fod yn hŷn, yn ymestyn o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif: ni chyhoeddwyd yr un ohonynt yn y mileniwm hwn. Mae un testun Cymraeg (*Llinyn Trôns*, sy'n ymddangos yn rhestr CA3) wedi'i dargedu at ddarllenwyr 11-14 oed. Disgrifir un (*Yn Y Gwaed)* fel llenyddiaeth i oedolion. Gallai'r ystod hon ymwneud â gallu amrywiol dysgwyr yn y Gymraeg, ar draws dysgwyr iaith gyntaf, ail iaith a dwyieithog.

### *4.1.3 Rhyddiaith Safon Uwch*

**Tabl 9: Teitlau rhyddiaith Gymraeg a addysgir ar gyfer Safon Uwch**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Caryl Lewis | *Martha, Jac a Sianco* | 2007 | 5 |
| Dafydd a Rhiannon Ifans neu Gwyn Thomas | *Chwedl Branwen* | c.14c; diweddarwyd 1980 neu 1996 | 3 |
| Manon Steffan Ros | *Blasu* | 2012 | 2 |
| Caradog Pritchard | *Un Nos Ola Leuad* | 1961 | 1 |

**Tabl 10: Teitlau rhyddiaith Saesneg a addysgir ar gyfer Safon Uwch**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Charlotte Bronte | *Jane Eyre* | 1847 | 5 |
| Colm Toìbìn | *Brooklyn* | 2009 | 1 |
| Ian McEwan | *Atonement* | 2001 | 1 |
| Margaret Atwood | *The Handmaid's Tale* | 1985 | 1 |
| Jamaica Kincaid | *Annie John* | 1985 | 1 |
| Alice Walker | *The Colour Purple* | 1982 | 1 |
| Truman Capote | *In Cold Blood* | 1966 | 1 |
| Jean Rhys | *Wide Sargasso Sea* | 1966 | 1 |
| EM Forster | *A Room with a View* | 1908 | 1 |
| Jane Austen | *Sense and Sensibility* | 1811 | 1 |

Dywedodd 17 o blith 47 (36 y cant) o'r cyfranogwyr eu bod yn addysgu rhyddiaith ar y lefel hon. Roedd nifer yr awduron a'r testunau a enwyd gan athrawon unigol yn amrywio o un i dri. O gymharu â chyfnodau blaenorol, roedd cynnydd yng nghyfran yr awduron benywaidd, sef tua hanner yr awduron i gyd ac ym mhob iaith, ac yn nifer yr awduron Du (n.2). Dim ond mewn testunau Saesneg y mae'r olaf (Kincaid a Walker) yn ymddangos: mae'r holl destunau Cymraeg gan awduron Gwyn. Gyda thestunau o Gymru'r Oesoedd Canol, yr ugeinfed ganrif, a'r unfed ganrif ar hugain, mae'r testunau Cymraeg a welir yma yn llai diweddar, yn hanesyddol ehangach, na'r rhai a restrwyd ar gyfer y cyfnodau blaenorol. Daw'r rhan fwyaf o'r testunau Saesneg o'r ugeinfed ganrif, gydag ambell un o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Roedd y testunau hyn yn cynrychioli rhychwant amser ychydig yn ehangach a mwy cyfredol nag ar lefel TGAU. Unwaith eto, ffuglen oedd y rhan fwyaf o'r testunau, ac eithrio *In Cold Blood* (gwaith ffeithiol).

Gwelir tueddiadau cyffredinol eraill yn y dewis o destunau rhyddiaith, yn cynnwys bod rhai *genres* penodol yn drech yn y cyfnodau is: llyfrau ar thema pêl-droed mewn ymatebion Cymraeg a ffuglen ddyfaliadol mewn rhai Saesneg. Mae hyn yn awgrymu ymgais

gan athrawon i ennyn diddordeb bechgyn, sy'n tueddu i fod yn amharod i ddarllen yn ôl hanes diweddar Prydain – drwy ddefnyddio *genres* sy'n tueddu i gael eu cysylltu â nhw (Sellers; Gorard, Rees a Salisbury; er bod Loh, Sun a Majid yn cwestiynu maint y gwahaniaethau yn ôl rhywedd a welir mewn dewisiadau deunydd darllen neu *genres* 29).

*4.2 Barddoniaeth*

***4.2.1 Barddoniaeth yng CA3/hyd at 14 oed***

**Tabl 11: Cerddi Cymraeg yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Bardd* | *Teitl* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| Bryan Martin Davies | 'Glas' | 6 |
| Iwan Llwyd | 'Tai Unnos' | 5 |
| J.J. Williams[11] | 'Cantre'r Gwaelod' | 2 |
| Gerallt Lloyd Owen | 'Etifeddiaeth' | 2 |
| Mererid Hopwood | 'Sbectol Hud' | 2 |
| R. Williams Parry | 'Englynion Coffa Hedd Wyn' | 2 |
| Menna Elfyn | 'Er Cof am Kelly' | 2 |
| [heb ei enwi] | 'Ar fy mhen fy hun' | 2 |
| [heb ei enwi] | 'Cwestiynau' | 1 |
| T. H. Parry Williams | 'Hon' | 1 |
| Gwyneth Glyn | 'Y Gerdd Werdd' | 1 |
| [heb ei enwi] | 'Y Ffon Symudol' | 1 |
| [heb ei enwi] | 'Storm ar y môr' | 1 |
| Gerallt Lloyd Owen | 'Cilmeri' | 1 |
| [heb ei enwi] | 'Y Caets' | 1 |
| [heb ei enwi] | 'Fy Mag Ysgol' | 1 |
| Grahame Davies | 'Lerpwl' | 1 |
| Hedd Wyn | 'Yr Arwr' | 1 |

**Tabl 12: Cerddi Saesneg yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Bardd* | *Teitl* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| Wilfred Owen | 'Dulce Et Decorum Est' | 3 |
| William Blake | 'The Tyger' | 1 |
| Paul Henry | 'Daylight Robbery' | 1 |
| Walter de la Mare | 'The Listeners' | 1 |
| Jessie Pope | 'Who's for the Game?' | 1 |
| Roger McGough | 'The Identification' | 1 |
| Dylan Thomas | 'Hunchback in the Park' | 1 |
| Zulfikar Ghose | 'Decomposition' | 1 |
| Rupert Loydell | 'The Tramp' | 1 |
| Gary Turk | 'Look up' | 1 |
| Alfred Tennyson | 'The Kraken' | 1 |
| Edwin Morgan | 'Hyena' | 1 |

Rhannodd 22 o blith 47 (47 y cant) o'r cyfranogwyr fanylion y beirdd a cherddi y maent yn eu haddysgu yng CA3. Nododd y mwyafrif feirdd a cherddi unigol, ond roedd rhai wedi nodi 'barddoniaeth y Rhyfel Byd Cyntaf', 'Amrywiol', 'Cerddi dethol', neu 'amrywiaeth yn dibynnu ar allu'r dosbarth'. Sonnir am 17 bardd gwrywaidd o'i gymharu â 4 menyw: ychydig o dan 20 y cant. Mae tair o'r rhain yn gweithio yn y Gymraeg, un yn Saesneg. Ac eithrio Zulfikar Ghose, awdur Pacistanaidd-Americanaidd, mae'r beirdd i gyd yn Wyn. Mae ein canfyddiadau'n wahanol i rai Elliott et al., a ganfu mai barddoniaeth yw'r ffordd fwyaf cyffredin i fyfyrwyr uwchradd ddod ar draws awdur Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol arall yn Lloegr (4). Ysgrifennodd y beirdd Cymraeg i gyd yn yr ugeinfed ganrif neu'r unfed ganrif ar hugain. Yn yr un modd, roedd dwy ran o dair o'r beirdd Saesneg wedi cyhoeddi'n bennaf yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain: roedd y gweddill yn weithgar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnig ystod hanesyddol ychydig yn ehangach. Roedd y cerddi gan Blake, Owen a Pope yr un mor boblogaidd gyda chyfranogwyr Kneen, er bod llawer o wahaniaethau hefyd yn y beirdd a'r cerddi a enwyd gan gyfranogwyr y ddau arolwg (4).

Mae'r nifer fawr o deitlau a nodir ar draws y ddwy iaith yn tystio i arsylwad Kneen bod mwy o ymreolaeth gan athrawon yn y cyfnod hwn na'r rhai nesaf.

### *4.2.2 Barddoniaeth ar lefel* TGAU

Roedd athrawon TGAU a Safon Uwch yn tueddu i nodi blodeugerddi yn hytrach na rhestru cerddi unigol a addysgir, efallai oherwydd eu bod yn haws i'w cofio neu oherwydd bod athrawon wedi colli egni erbyn cyrraedd y cam hwn o'r arolwg. Dim ond 13 o 47 (28 y cant) o'r cyfranogwyr a atebodd y cwestiwn am feirdd a addysgir ar lefel TGAU. O ran barddoniaeth Saesneg, enwodd un cyfranogwr 'Toast' gan Sheenagh Pugh a 'Not Adlestrop' gan Dannie Abse. O ran barddoniaeth Gymraeg, enwodd un cyfranogwr y bardd rhyfel Hedd Wyn a'i waith 'Yr Arwr'. Cyhoeddwyd pob un o'r rhain yn y ganrif ddiwethaf ac maent yn ymddangos yn *Poetry 1900–2000,* blodeugerdd Llyfrgell Cymru o farddoniaeth a olygwyd gan Meic Stephens. Mynegodd rhai athrawon fod asesu yn flaenoriaeth sylweddol wrth ddewis barddoniaeth ar y lefel hon, gan ddweud eu bod yn addysgu ystod o blith rhestrau CBAC – awduron Cymraeg/hen bapurau fel modd o ymarfer ar gyfer arholiadau; detholiad o gerddi yn seiliedig ar restr CBAC gan feirdd o Gymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg; amrywio'n flynyddol yn ôl detholiad a bennir gan CBAC; a cherddi perthnasol ar gyfer asesiadau dan reolaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn addysgu cerddi amrywiol, dethol; amrywiaeth – o ddetholiad o farddoniaeth CBAC; amrywiaeth, detholiad o gerddi o'r Welsh Anthology; amrywiol, detholiad o Poetry 1900–2000 Library of Wales; a Welsh Poetry Anthology (1900–2000). Felly, mae'n amhosibl trafod amrywiaeth yn ystyrlon wrth addysgu barddoniaeth ar lefel TGAU. Mae'r casgliad yn awgrymu ffyrdd o unioni hyn mewn ymchwil yn y dyfodol.

### *4.2.3 Barddoniaeth ar gyfer Safon Uwch*

Dim ond 15 o blith 47 (32 y cant) o'r cyfranogwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn fanwl. Roedd y mwyafrif yn cyfeirio at 'feirdd amrywiol' neu fanylebau barddoniaeth yn gyffredinol e.e. ystod o gerddi cyn 1900 neu'r fanyleb Haen Uwch (unedau 3, 5, a 6).

**Tabl 13: Cerddi Cymraeg ar gyfer Safon Uwch**

| *Bardd* | *Teitl* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| Grahame Davies | 'Lerpwl', 5 cerdd | 2 |
| Tudur Dylan Jones | 'Newyddion' | 1 |
| Myrddin ap Dafydd | 'Twyll' | 1 |
| Iwan Rhys | 'Caerdydd' | 1 |
| Gerallt Lloyd Owen | 'Etifeddiaeth' | 1 |
| Iwan Llwyd | 'Tai Unnos' | 1 |

**Tabl 14: Cerddi Saesneg ar gyfer Safon Uwch**

| *Bardd* | *Teitl* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|
| Philip Larkin | 'The Whitsun Weddings', Casgliad o gerddi | 2 |
| Carol Ann Duffy | 'Mean Time', Casgliad o gerddi | 2 |
| Geoffrey Chaucer | 'The Merchant's Prologue and Tale' | 2 |
| Owen Sheers | Skirrid Hill | 1 |
| Seamus Heaney | 'Field Work' | 1 |
| John Donne | Cerddi dethol | 1 |
| John Keats | Cerddi dethol o flodeugerdd | 1 |
| William Blake | Cerddi dethol o flodeugerdd | 1 |

Dywedodd un fod dysgwyr wedi dewis ystod o weithiau yn annibynnol fel rhan o'r elfen synoptig ar gyfer y cwrs Cymraeg Safon Uwch, sy'n awgrymu rhywfaint o ddewis disgyblion. Mae'r cerddi yn rhychwantu cyfnod hanesyddol eang, o tua 1400 ymlaen. Mae'r cerddi Cymraeg i gyd wedi eu hysgrifennu gan ddynion. Mae un o'r beirdd Saesneg yn fenyw. Mae pob un yn Wyn. Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn sicr o ddemograffeg y beirdd a addysgir o ystyried nifer yr ymatebion a gyfeiriodd at gasgliadau.

### *4.3 Dramodwyr a dramâu*

#### ***4.3.1 Dramodwyr a dramâu – CA3/hyd at 14 oed***

**Tabl 15: Dramâu Cymraeg yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Caryl Lewis | *Arkies* | 2006 | 4 |
| Caryl Lewis | *Yr Ysbryd* | 2006 | 2 |
| Saunders Lewis[12] | *Blodeuwedd (detholiad)* | 1947 | 2 |
| Tom Lycos a Stefo Nantsou (cyf. Cwmni Theatr Arad Goch) | *Tafliad Carreg* | 1996 (2001) | 1 |
| Sera Moore Williams | *Mwnci ar Dân* | 2013 | 1 |
| Samuel Beckett (cyf. Saunders Lewis) | *Wrth Aros Godot* | 1953 (1970) | 1 |

**Tabl 16: Dramâu Saesneg yng CA3/hyd at 14 oed**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| William Shakespeare | *Romeo and Juliet* | 1594–6 | 4 |
| William Shakespeare | *Macbeth* | c.1604–7 | 4 |
| Willy Russell | *Blood Brothers* | 1985 | 4 |
| Willy Russell | *Our Day Out* | 1977 | 2 |
| William Shakespeare | *A Midsummer Night's Dream* | 1594–6 | 1 |
| William Shakespeare | *Julius Caesar* | 1599 | 1 |
| William Shakespeare | *King Lear* | 1604–6 | 1 |
| Mark Ravenhill | *Citizenship* | 2007 | 1 |
| Dennis Kelly | *DNA* | 2007 | 1 |
| John Godber | *Teechers* | 1984 | 1 |
| J.M. Barrie | *Peter Pan* | 1904 | 1 |

Ymatebodd 9 o blith 24 (38 y cant) o'r cyfranogwyr i'r cwestiwn, llai na'r rhai a ymatebodd ar ryddiaith a barddoniaeth yng CA3. Gallai hyn olygu nad oes cymaint o ddrama'n cael ei haddysgu yn y cyfnod hwn, bod cydweithwyr eraill yn gyfrifol am addysgu drama, neu fod ymatebwyr wedi ymlâdd wrth gwblhau'r arolwg. Mae'r cyfranogwyr yn nodi rhwng un a phedwar testun yr un. O blith y dramodwyr a enwyd, dim ond dau sy'n fenywod (llai nag ugain y cant), a'r ddwy ohonynt yn ysgrifennu yn Gymraeg. Ni chyfansoddwyd yr un o'r dramâu Saesneg gan fenyw. Mae pob dramodydd yn Wyn. Roedd y testunau Cymraeg yn tueddu i fod yn fwy diweddar ac wedi'u targedu fwy at gynulleidfa yn ei harddegau na'r rhai Saesneg. Roedd *Romeo and Juliet*, *Macbeth*, *A Midsummer Night's Dream*, *Julius Caesar*, *Our Day Out* a *Blood Brothers* i gyd yn ddramâu poblogaidd ymysg ymatebwyr Kneen ar y lefel hon (5). Gwahaniaeth nodedig rhwng ein canlyniadau a'n hastudiaethau blaenorol yw absenoldeb *An Inspector Calls* gan J.B. Priestley a *The Tempest* gan Shakespeare (Kneen et al, Kneen, Elliott ac Olive, 2019). Esbonnir y cyntaf gan ei boblogrwydd ar lefel TGAU (gweler tabl 17). Mae'r olaf yn ddiddorol o ystyried dehongliad a phoblogrwydd y ddrama yn ystod y degawdau diwethaf fel beirniadaeth o drefedigaethedd, rhywbeth a allai adlewyrchu hanes Cymru.

### *4.3.2 Dramâu ar lefel TGAU*

**Tabl 17: Dramâu Cymraeg ar lefel TGAU**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Willy Russell (cyf. Manon Eames) | *Shirley Valentine* | 1988; cyf. 1996 | 5 |
| Gwyneth Lewis | *Y Streic a Fi* | 2015 | 4 |
| Saunders Lewis | *Blodeuwedd (detholiad)* | 1947 | 3 |
| Jim Cartwright[13] | *Dau* | 1989 | 1 |
| Sera Moore Williams | *Mwnci ar Dân* | 2013 | 1 |
| Alan Llwyd | *Hedd Wyn* | 1992 (ffilm) | 1 |
| Stephen Sondheim (cyf. Rhian Staples) | *Sweeney Todd* | 1979; cyf. 2013 | 1 |

**Tabl 18: Dramâu Saesneg ar lefel TGAU**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| JB Priestley | *An Inspector Calls* | 1945 | 9 |
| William Shakespeare | *Romeo and Juliet* | 1594–6 | 8 |
| William Shakespeare | *Macbeth* | 1604–7 | 4 |
| Willy Russell | Blood Brothers | 1985 | 3 |
| Manon Steffan Ros | *Two Faces* | 2016 | 2 |
| Diene Petterle, Neil Monaghan, Christopher Heimann | *100* | 2003 | 2 |
| Arthur Miller | *A View from the Bridge* | 1955 | 2 |
| Samuel Beckett | *Waiting for Godot* | 1953 | 1 |
| William Shakespeare | 'amrywiol' | d.d. | 1 |
| Owen Sheers [*sic*. Tim Price] | *The Radicalisation of Bradley Manning* | 2012 | 1 |

Un ar hugain o blith 47 (45 y cant) o'r cyfranogwyr atebodd y cwestiwn hwn. Yn ogystal â'r atebion yn y tabl, nododd un ymatebydd S4C, y sianel ddarlledu Gymraeg ddi-dâl, am ei fod wedi addysgu rhywfaint o'i rhaglenni yn ôl pob tebyg. Chwe menyw oedd wedi'u cynnwys yma – dwy fel cyfieithwyr testunau i'r Gymraeg – sy'n cynrychioli ychydig llai na hanner yr holl ddramodwyr a'r rhai Cymraeg. Dim ond un rhan o bump o'r rhai Saesneg oedd yn ddramodwyr benywaidd. Mae pob un yn Wyn. Ysgrifennwyd y testunau Cymraeg i gyd yn ystod y can mlynedd diwethaf, ac roedd y rhai Saesneg hefyd yn cynnwys gweithiau Shakespeare o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Roedd *Romeo and Juliet* a *Macbeth* yn fwyaf poblogaidd ar lefel TGAU, yn yr un modd ag yn arolwg Elliott ac Olive ac arolwg Kneen.

### *4.3.3 Dramâu ar gyfer Safon Uwch*

**Tabl 19: Dramâu Cymraeg ar gyfer Safon Uwch**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Saunders Lewis | *Siwan* | 1956 | 5 |
| Gwenlyn Parry | *Y Tŵr* | 1978 | 2 |
| Alan Llwyd | *Hedd Wyn* | 1992 | 2 |
| Owen Shears [*sic.* Tim Price] | *Radicaleiddio Bradley Manley* [*sic.* Manning] | 2012 | 1 |
| Betsan Llwyd | *Un Nos Ola Leuad* | 2011 (nofel 1961) | 1 |
| Stephen Sondheim (cyf. Rhian Staples) | *Sweeney Todd* | 1979; cyf. 2013 | 1 |
| Samuel Beckett | *Wrth Aros Godot* | 1953 | 1 |
| Jim Cartwright | (Dim teitl) | d.d. | 1 |
| Sera Moore Williams[14] | *Crash* | 2009 | 2? |

**Tabl 20: Dramâu Saesneg ar gyfer Safon Uwch**

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Tim Price | *The Radicalisation of Bradley Manning* | 2012 | 3 |
| Tennessee Williams | *Streetcar Named Desire* | 1947 | 3 |
| William Shakespeare | *King Lear* | 1604–6 | 2 |
| William Shakespeare | *Hamlet* | 1600–1 | 2 |
| Caryl Churchill | *Top Girls* | 1982 | 2 |
| William Shakespeare | *Tempest* | 1611 | 1 |
| Ariel Dorfman | *Death and the Maiden* | 1990 | 1 |

| *Awdur* | *Teitl* | *Dyddiad* | *Crybwylliadau* |
|---|---|---|---|
| Marsha Norman | *Night, Mother* | 1982 | 1 |
| Peter Shaffer | *Amadeus* | 1979 | 1 |
| Peter Nichols | *A Day in the Death of Joe Egg* | 1967 | 1 |
| Arthur Miller | *A View from the Bridge* | 1955 | 1 |
| Sophocles | *Antigone* | 441 B.C. | 1 |
| Sophocles [*sic.* Euripides] | *Medea* | 431 B.C. | 1 |
| Shelagh Delaney [*sic.* Stephenson] | *The Memory of Water* | 1996 | 1 |
| Yasmina Reza (cyf. o'r Ffrangeg gan Christopher Hampton) | *Art* | 1994 (1996) | 1 |

Atebodd 22 o blith 47 (47 y cant) o'r cyfranogwyr y cwestiwn hwn. Un awdur a restrodd y mwyafrif ond enwodd un cyfranogwr saith drama gan amrywiol awduron Saesneg ac ef sy'n bennaf gyfrifol am hyd y rhestr. Dywedodd un arall fod dysgwyr wedi dewis ystod o waith yn annibynnol fel rhan o'r elfen synoptig ar gyfer y cwrs Cymraeg Safon Uwch, gan gyfleu rhyw gymaint o ddewis gan ddisgyblion unwaith eto. Mae poblogrwydd cymharol addysgu *Hamlet* a *King Lear* ar y lefel hon yn gydnaws â chanfyddiadau ledled y DU (Elliott ac Olive, 2019). Enwir 7 menyw o gymharu â 14 dyn, sef tua thraean y dramodwyr yn gyffredinol ac yn y ddwy iaith. Mae dwy wedi addasu/cyfieithu gwaith a ysgrifennwyd gan ddynion (Betsan Llwyd a Rhian Staples). Mae pob un ohonynt yn Wyn, ac eithrio Yasmina Reza sydd o dras Iranaidd[15]. Mae'r dramâu Cymraeg yn dyddio o'r ugeinfed neu'r unfed ganrif ar hugain, ac mae'r rhai Saesneg hefyd yn cynnwys rhai o'r Hen Roeg a Lloegr fodern gynnar. Er bod y dramâu Saesneg a addysgir yn debyg i arolygon eraill y DU, weithiau mae'r cyfnodau y cânt eu haddysgu yn wahanol yng Nghymru (yn gynharach mewn rhai achosion ac yn ddiweddarach mewn rhai eraill).

*4.4 Ieithoedd Rhyngwladol*

Gofynnwyd i athrawon ieithoedd rhyngwladol gwblhau'r un arolwg â'u cydweithwyr Cymraeg, Saesneg a Drama. Roedd yn ymddangos eu bod wedi dechrau ymateb i newidiadau a oedd yn gofyn am gynnwys llenyddiaeth yn y pynciau hyn, ond prin oedd y dystiolaeth, a honno'n ymwneud â Ffrangeg a Sbaeneg yn unig. Mae hyn yn dangos bod defnyddio llenyddiaeth yn faes sy'n dal i gael ei ddatblygu, yn enwedig gyda myfyrwyr CA3 a TGAU. Roedd y testunau a grybwyllwyd yn cynnwys *Le Petit Prince* gan Antoine de Saint-Exupery ac *Asterix* gan René Goscinny. Yng CA3, nododd y cyfranogwyr eu bod yn addysgu'r testunau hyn ar ffurf detholiadau. Nid oedd sôn am destunau wrth astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU. Ar lefel Safon Uwch, roedd gweithiau rhyddiaith yn cynnwys *Kiffe Kiffe Demain* gan Faïza Guène (Ffrangeg, 2004) ac *El otro árbol de Guernica* gan Luis de Castresana (Sbaeneg, 1969). *La casâ de Bernarda Alba* (Sbaeneg, 1945) gan Frederico Garcia Lorca oedd yr unig ddrama a grybwyllwyd. Mae'r ymatebion hyn yn dangos bod gwaith un fenyw Ffrengig-Algeraidd a gyhoeddwyd yn yr unfed ganrif ar hugain yn cael ei addysgu yn ogystal â'r testunau hŷn gan ddynion Gwyn, ond ni chafwyd digon o ymatebion i alluogi gwneud sylwadau ystyrlon ar rywedd neu amrywiaeth ethnig.

*4.5 Sut mae testunau yn cael eu dewis*

Mewn ymateb i'r cwestiwn, 'pwy sy'n dewis y testunau llenyddol a addysgir?', yr ateb mwyaf poblogaidd oedd 'fi', ac yna 'Pennaeth Adran', 'pleidlais adrannol' ac 'arall'. O'r cyfranogwyr a ddewisodd 'arall', soniwyd am y prosesau canlynol:

- Mae pawb yn cael cyfle i awgrymu syniadau;
- Y Pennaeth Adran ynghyd â gweddill staff yr adran;
- Disgyblion fel arfer sy'n dewis y ddau deitl a addysgir ar gyfer Safon Uwch o restr CBAC;
- Y manylebau a'r byrddau arholi TGAU a Safon Uwch;
- Arweinydd Dysgu CA3;
- Dewisiadau hanesyddol gan Bennaeth Adran a rheolwr llinell/chwarae i gryfderau Safon Uwch.

Roedd y penderfyniadau ar y cyfan gan unigolion: yn bennaf gan yr athro dosbarth, y Pennaeth Adran neu'r Arweinydd Dysgu. Roedd penderfyniadau ar y cyd yn brinnach, ac fe'u nodwyd yn bennaf fel rhai a wnaed gan adrannau neu fyrddau arholi. Cafodd dylanwad asesu ei grybwyll gan yr athro a soniodd am chwarae i gryfderau yn Safon Uwch fel ffactor wrth ddethol testunau. Archwilir ymhellach isod y ffaith fod addysgu ar gyfer prawf yn ffactor wrth ddewis testunau.

### *4.6 Pam mae testunau yn cael eu dewis*

Mae'r adran hon yn ystyried yr hyn a ddywedodd athrawon am y nodweddion y chwilir amdanynt mewn testunau llenyddol ar bob lefel. Atebodd 40 (85 y cant) o'r cyfranogwyr y cwestiwn 'Pa rinweddau ydych chi'n chwilio amdanynt mewn testunau llenyddol i'w haddysgu i fyfyrwyr yng CA3/hyd at 14 oed?', 35 (74 y cant) mewn perthynas â TGAU, a 27 (57 y cant) mewn perthynas â Safon Uwch. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith fod llai o athrawon yn addysgu ar y lefel hon (gweler Tabl 2) a bod cyfranogwyr wedi blino ar yr arolwg. Rhoddodd sawl athro'r un ateb ag y rhoesant yn eu hymateb yng CA3 i ateb y cwestiynau cyfatebol ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Efallai nad oedd geiriad y cwestiwn hwn yn eglur i gyfranogwyr gan fod cwestiwn cysylltiedig dilynol – 'A oes ffactorau eraill sy'n effeithio ar eich dewis o destunau?' – wedi derbyn cyfradd ymateb o 100 y cant. Oherwydd y tebygrwydd mewn ymatebion ar draws y tair lefel ysgol uwchradd, trafodir y canlyniadau hyn gyda'i gilydd, gan amlygu unrhyw wahaniaethau rhwng lefelau. Pedair nodwedd a nodwyd yn gyson oedd: themâu; eu diddordeb neu eu hapêl i'r dysgwyr; addasrwydd; a'r iaith. Mae rhai o'r nodweddion hyn yn gydgysylltiedig: er enghraifft, roedd atebion lluosog yn crybwyll chwilio am destunau sydd â themâu priodol a fydd yn ennyn diddordeb dysgwyr.

Mae'n anodd dadansoddi o'r ymatebion hyn beth sy'n gyfystyr â 'thema briodol'. Roedd un ymateb yn nodi bod testunau diddorol, ysgafn nad oeddent yn trafod themâu anodd fel marwolaeth a salwch yn briodol: efallai fod cyd-destun y pandemig diweddar wedi dylanwadu ar yr ateb hwn. Roedd rhai yn crybwyll priodoldeb o ran bod testunau'n cyd-fynd â themâu yn y cwricwlwm. Roedd un ymateb yn crybwyll chwilio am destunau sy'n gallu taro sawl nodyn o ran gofynion y cwricwlwm. Pwysleisiodd un arall y dylai testunau adlewyrchu amrywiaeth o themâu.

Roedd cael cyfatebiaeth dda rhwng y testunau a diddordebau'r disgyblion yn aml yn ddylanwad ar athrawon. Roedd ambell ymateb yn sôn am briodoldeb neu hygyrchedd iaith fel mater pwysig, er bod ystyr hynny'n cael ei ddehongli'n wahanol: dywedodd rhai eu bod yn chwilio am iaith nad oedd yn rhy heriol, yn ddigon syml i ddysgwyr ddeall y testun ar eu pen eu hunain. Ar y llaw arall, soniodd sawl un am 'her' fel elfen yr oeddent yn chwilio amdani wrth ddewis testunau, yn enwedig yn lefelau uwch yr ysgol uwchradd. Nododd rhai fod arddull ysgrifennu, dewisiadau arddulliadol ac amrywiaeth o arddulliau yn bwysig. Soniodd dau gyfranogwr am ddefnyddio pleidleisiau disgyblion a llais y disgybl i ddewis testunau, gan gynnwys defnyddio myfyrdod disgyblion ar destunau y maent wedi'u hastudio i lywio penderfyniadau staff wrth gynllunio i'r dyfodol. Mae ymchwil flaenorol yn pwysleisio barn gadarnhaol athrawon am fyfyrwyr yn cyfrannu at ddewis testunau (Goodwyn). Fodd bynnag, mae Estyn, yn rhybuddio ynghylch priodoldeb hyn, gan ddweud 'mae gan ddisgyblion wybodaeth gyfyngedig am y cyfoeth o ddeunydd darllen sydd ar gael', er bod hyn o bosibl yn ymwneud mwy â dewisiadau darllen annibynnol nag ydyw ag athrawon yn caniatáu i ddisgyblion ddewis o blith detholiad o destunau gosod posibl (23). Ar lefelau uwch yn unig, gwelwyd bod pryder cyfranogwyr ynghylch addasrwydd testun i ddisgyblion yn cael ei gyfateb gan bryder ynghylch 'arbenigedd, 'gwybodaeth', 'diddordeb personol' a 'dewis' staff.

Nodwyd yn aml nodweddion fel hiwmor; plot neu naratif gafaelgar, cymeriadu; a natur gyfoes, yn ogystal â'r potensial i fyfyrwyr uniaethu â'r cymeriadau a theimlo empathi tuag atynt. Weithiau roedd ymatebion yn ymwneud â rhywedd disgyblion: datgelodd un athro ei fod yn addysgu *Llinyn Trôns* fel nofel ddosbarth i'r set ganol ym Mlwyddyn 11 am ei fod yn ei hystyried yn nofel sy'n apelio at fechgyn – gan grybwyll eto'r syniad bod bechgyn yn gyndyn o ddarllen. Mae ymatebion yn ymwneud â'r awydd i astudio awduron a thestunau lleol a thymhorol yn adleisio'r un nod. Roedd un ateb yn canmol ychwanegu *Llyfr Glas Nebo* at y fanyleb TGAU Cymraeg oherwydd ei pherthnasedd canfyddedig i ddisgyblion. Roedd sawl ymateb yn ymwneud yn benodol â hunaniaeth Gymreig o ran iaith a daearyddiaeth. Roedd rhai'n awyddus i sicrhau bod tafodiaith Gymraeg eu disgyblion yn cael ei hadlewyrchu yn y testunau Cymraeg yr oeddent yn eu hastudio: nododd un fod digon o destunau o dde Cymru ymhlith y testunau Cymraeg oedd ar gael ond barnai fod y rhain yn heriol i ddisgyblion y gogledd, yn enwedig i'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref. Ysgrifennodd un arall fod angen ystyried lefel anhawster

y Gymraeg a ddefnyddir. Roedd un yn chwilio am destunau ar bynciau Cymraeg modern: testunau a fyddai'n ehangu gwybodaeth disgyblion am Gymru. Roedd un arall eisiau ennyn diddordeb dysgwyr mewn parhau i ddarllen nofelau Cymraeg (a nodwyd fel problem gan Rosser).

Fel arall, dangosodd rhai ymatebion fod cyfranogwyr yn chwilio am amrywiaeth o brofiadau a chefndiroedd i ehangu gorwelion myfyrwyr, gan awgrymu na ellid ystyried bod perthnasedd ar ei ben ei hun yn ddigon i gyflawni amcanion wrth astudio llenyddiaeth, yn enwedig ar lefelau uwch. Ysgrifennodd un ei fod yn chwilio am destunau sy'n ysgogi'r meddwl ac nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu profiad bywyd y myfyrwyr hyd yn hyn, i'w cyflwyno i syniadau newydd. Dewisodd un arall destunau y teimlai a fyddai'n gwthio dealltwriaeth disgyblion o'r pwnc a'r byd lle mae'r testun wedi'i osod. Ysgrifennodd athro iaith ryngwladol am ei awydd i roi naws ddiwylliannol o'r byd/gwlad lle mae'r iaith a asesir yn cael ei siarad trwy ei ddewis o destunau. Wrth i ni fynd ati i adrodd ein data, canmolodd Estyn (23) a DARPL ysgolion sy'n taro cydbwysedd rhwng cynrychioliadau manwl o brofiad lleol a rhyngwladol, cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn eu dewis o destunau, gan adlewyrchu problemeiddio cynefin a chysyniadau cysylltiedig yn y Cwricwlwm i Gymru (a welwyd hefyd yn sesiwn gynhadledd BERA 2023 'Cynefin, Curriculum and Wales through multiple lenses', a gadeiriwyd gan Gary Beauchamp).

Ar lefel TGAU a Safon Uwch, roedd mwy o gyfranogwyr yn crybwyll CBAC, byrddau arholi a manylebau arholiadau mewn atebion, yn aml i dynnu sylw at y cyfyngiadau ar eu dewis o destunau: ysgrifennodd un y byddai'n braf cael mwy o hyblygrwydd wrth ddewis testunau neu amrywio testunau o flwyddyn i flwyddyn yn hytrach na chael eu cyfyngu i ddewis penodol gan fyrddau arholi. Roedd pryder amlwg hefyd am hyd y testunau yma – yn benodol mewn perthynas â dichonoldeb eu hastudio o fewn yr amser ystafell ddosbarth cyfyngedig sydd ar gael. Ysgrifennodd dau athro fod y ffaith nad oedd amser i ddarllen y testunau'n llawn ar ddyfnder addas, hyd yn oed gyda'r setiau uchaf, yn ddylanwad. Yn y cyfamser, mae pwyslais athrawon ar blot cryf a chlir fel nodwedd bwysig yn llai amlwg ar y lefel hon, gan awgrymu ei fod yn gysylltiedig â chyfnodau is. Yn hytrach, daeth y berthynas rhwng y dewis o destunau ac ymgysylltiad beirniadol myfyrwyr, safbwynt beirniadol, cyfleoedd ar gyfer ymchwil unigol ac ystyried cyd-destun a chefndir cymdeithasol testun i'r amlwg fel ffactor. Dangosodd rhai ffactorau ar lefel Safon Uwch pa mor ddylanwadol yw'r asesiadau

tyngedfennol dan sylw. Nododd dau ymateb fod posibiliadau llwyfannu yn gymhelliant pwysig: gallai hyn ymwneud â'r gofyniad yn yr arholiad ysgrifenedig Drama Safon Uwch i drafod llwyfannu testunau gosod. Roedd dau ymateb pellach yn nodi bod testunau a allai sbarduno trafodaeth ar gyfer yr asesiad llafar yn ddymunol. Nododd dau arall y gallu i lunio cymariaethau â'r testunau gosod fel ffactor penderfynu. Soniodd un am botensial myfyrwyr i gyflawni fel maen prawf – mae hyn yn adleisio'r athro yn astudiaeth Smith yn Lloegr a ddywedodd fod dewisiadau'n cael eu seilio'n bennaf ar ba awduron y mae myfyrwyr yn mynd i gael marciau amdanynt (232). Mae'r ymatebion hyn yn codi'r bwgan o 'addysgu at y prawf'. Y tu hwnt i hyn, pwysleisiodd un ateb ddefnyddioldeb y testunau, gan egluro bod paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle a helpu myfyrwyr i sylweddoli gwerth llenyddiaeth yn flaenoriaeth yn eu hysgol.

Ar nodyn ymarferol, nododd cyfranogwyr fod argaeledd adnoddau ategol fforddiadwy yn ffactor wrth ddewis testunau. Fodd bynnag, roedd yn drawiadol nad oedd argaeledd setiau dosbarth o'r testunau eu hunain yn y storfa yn cael ei nodi fel ffactor – rhywbeth a oedd yn ffactor allweddol yn anecdotaidd ac mewn ymchwil flaenorol (Elliott, Elliott et al, Smith 251). Efallai y gellir esbonio hyn oherwydd bod athrawon yn cwblhau'r arolwg ar ôl i ysgolion gael cynnig mwy o gyllid ar gyfer testunau gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, cyllid yr adroddodd athrawon iddynt ei ddefnyddio a'i werthfawrogi'n fawr. I grynhoi barn athrawon ar y nodweddion neu'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu dewis o destunau ar draws y tair lefel, roedd ystyriaeth o'r disgyblion yn bennaf: y potensial iddynt gael profiadau cadarnhaol o'r testunau (e.e. cael eu boddhau, eu herio, a'u diddori), gallu cyrchu'r testunau'n ffisegol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Roedd llond llaw o nodweddion cynhenid canfyddedig, fel themâu ac iaith, yn llywio dewisiadau athrawon, ond roeddent yn fwy dylanwadol ar lefelau is addysg uwchradd. I'r gwrthwyneb ac i'w ddisgwyl, roedd y byrddau arholi yn ffactor amlycach yn esboniadau athrawon o'r hyn y maent yn ei ddewis ar lefel TGAU a Safon Uwch.

## *5. Trafodaeth*

Yn unol ag astudiaethau blaenorol Elliott et al. (Lloegr), Kneen et al. (De-orllewin Lloegr a Chymru), a Hartman (Unol Daleithiau), gwelsom

fod awduron benywaidd yn cael eu cynrychioli llai na'u cymheiriaid gwrywaidd, yn y gwahanol gyfnodau a'r gwahanol foddau. Roedd yn fwy cyffredin gweld nofelau gan fenywod yn cael eu haddysgu ar draws y cyfnodau a'r ieithoedd na dramâu a cherddi, sef y modd lle'r oedd awduron benywaidd yn cael eu cynrychioli leiaf. Efallai fod hyn yn dangos sut mae'r cyfrwng wedi ei ryweddu yn y gorffennol fel un lle mae menywod wedi llwyddo ymhlith pobl a beirniaid fel ei gilydd. Cafodd mwy o awduron benywaidd, a chyfran uwch ohonynt, eu haddysgu ymhlith y testunau Cymraeg: yn aml yn cynrychioli hanner yr awduron ym mhob modd a chyfnod, tra bod eu cymheiriaid Saesneg yn cyfateb i bumed ran o'r cyfan. Mae'r tri awdur Cymraeg a gafodd eu crybwyll amlaf oll yn fenywod a phob un yn fyw heddiw: Bethan Gwanas (n.17), Caryl Lewis (n.12) a Manon Steffan Ros (n.12). Mae'r tri awdur Saesneg y soniwyd amdanynt fwyaf i gyd yn ddynion, wedi marw er 40-400 mlynedd: William Shakespeare (n.29), John Steinbeck (n.13) a J. B. Priestley (n.9).

Dangosodd hyn y duedd gyffredinol i destunau Cymraeg fod yn fwy cyfoes ac, yn berthynol, yn sgil eu hawduraeth, iddynt adlewyrchu rolau newidiol menywod yn y gymdeithas dros y ganrif ddiwethaf. Yn y modd hwn, maent o bosibl yn osgoi atgynhyrchu'r anghydraddoldebau a gynhyrchwyd trwy amodau cymdeithasol y canrifoedd blaenorol ond, ymddengys, mewn perthynas â rhywedd yn hytrach nag ethnigrwydd (Elliott 62). Roedd y testunau Cymraeg yn cyferbynnu'n llwyr ag arsylwad Kneen am addysgu llenyddiaeth yn Saesneg o ran cyn lleied o destunau a llenorion modern sy'n cael eu haddysgu. Roeddent hefyd yn cynnwys mwy o deitlau Oedolion Ifanc penodol, er bod diffyg dewis o ran testunau Cymraeg i ddarllenwyr yn eu harddegau wedi'i grybwyll (Rosser 20). Gallai hyn ymwneud â'r gwahaniaethau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg o ran argaeledd, yng ngallu cymharol myfyrwyr yn y ddwy iaith, yn ogystal â gwahaniaethau yng nghredoau athrawon pwnc am y berthynas rhwng canoneiddrwydd ac ansawdd. Gwelwyd yn yr holl destunau Saesneg y duedd iddynt gael eu tynnu o gyfnod hanesyddol ehangach na'r testunau Cymraeg cyfatebol. Gellir dadlau bod hyn yn ymwneud â'r cyd-destun hanesyddol o atal y Gymraeg ac, yn fwy diweddar, adfywio'r iaith yn ogystal â'r gafael sydd gan ganoneiddrwydd dros addysgu llenyddiaeth Saesneg (Elliott, Smith).

Mae casgliad Kneen ynghylch y prinder Awduron o Liw a addysgir o'i gymharu â phrinder awduron benywaidd yr un mor berthnasol i'n

hastudiaeth ni – dywed fod y sefyllfa hyd yn oed yn fwy eithafol o ran hil ac ethnigrwydd (3). Mae'r arsylwad fod yna broblem hil yn Lloegr yn wir hefyd yng Nghymru (Elliott 59, Williams 21). Ysgrifennwyd pob testun Cymraeg gan awduron Gwyn. Mae'n ymddangos yn debygol iawn nad yw myfyrwyr uwchradd byth yn astudio testun Cymraeg gan Awdur o Liw, fel sy'n wir am fyfyrwyr yn Lloegr (Elliott 74). Mae hyn yn rhoi argraff ffug o'r Gymraeg fel iaith a ddefnyddir gan bobl Wyn yn unig. Mae hyn er gwaethaf gostyngiad yng nghanran y bobl a gymerodd ran yn y cyfrifiad yng Nghymru a nododd eu bod yn Wyn (93.8 y cant o'r boblogaeth, o'i gymharu â 95.6 y cant yn 2011); 192,000 o bobl yn uniaethu â chategori ethnig heblaw Gwyn; 'data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn nodi yn 2019 fod 12 y cant o'r holl ddisgyblion 5 oed a throsodd yn dod o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol… gan amrywio o 34.4 y cant yn ysgolion Caerdydd i ddim ond 4.1 y cant yn ysgolion Ynys Môn' (Williams 21); a'r ymgyrch Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021). Dim ond pump neu chwech o Awduron o Liw a adroddwyd yn ein harolwg i gyd, pob un yn ysgrifennu yn Ffrangeg (Guène) neu Saesneg (Ghose, Kincaid, Parker Rhodes, Walker, ac efallai Reza), rhyddiaith yn bennaf. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd yn fras â chanlyniadau Kneen, ond gyda gwahanol awduron unigol wedi'u nodi.

Roedd ein hathrawon yn addysgu Awduron o Liw fwyaf ar gyfer Safon Uwch, gyda CA3 yn ail agos. Ni nodwyd yr un Awdur o Liw ar lefel TGAU – er efallai eu bod wedi'u cynnwys yn y casgliadau/blodeugerddi a enwyd yn aml ar y lefel hon – gan ychwanegu at yr ymdeimlad presennol fod llenyddiaeth TGAU yn cynrychioli tagfa o ddewisiadau testunol hynod geidwadol (Elliott et al, 4, 25, Elliott 68). Nid yn unig y mae mwy o deitlau ac awduron wedi'u rhestru yng CA3 a Safon Uwch nag ar lefel TGAU ond maen nhw hefyd yn deillio o ystod ehangach o gyfnodau hanesyddol. Ar y gorau, nid yw llenyddiaeth TGAU yn cymharu ag ehangder profiad myfyrwyr yn y cyfnodau cynharach ac mae'n rhoi darlun gwael o'r hyn y gallent ei ddisgwyl wrth ddilyn cwrs Safon Uwch (Elliott et al, 21). Ar y gwaethaf, mae perygl i'r holl destunau 'gwyn, gwryw a hen' ar lefel TGAU wneud i fyfyrwyr droi cefn ar astudio pynciau llenyddol ar Safon Uwch ac mewn cyrsiau addysg uwch, ar yr adeg y maent yn gwneud penderfyniadau pwysig am eu haddysg a'u gyrfaoedd (Elliott et al 27).

Mae Elliott yn cynnwys CBAC wrth gymharu sut mae Awduron o Liw wedi eu cynnwys ar draws y manylebau TGAU a Safon Uwch

amrywiol, a gwelir mai dim ond Edexcel ac OCR sy'n perfformio'n gymharol dda yn hyn o beth. Maent yn cynnwys beirniadaeth hallt o gategori 'Diwylliannau Gwahanol' CBAC, fel yr oedd yn 2020, am ei fod yn cynnwys awduron Gwyn yn bennaf yn ysgrifennu am brofiadau cymeriadau Du, yn cyfleu hil fel mater Americanaidd, a bod pob testun yn canolbwyntio ar bynciau negyddol fel hiliaeth ac AIDS (70-3). Mewn mannau eraill, disgrifir hyn fel model diffygiol o gynrychiolaeth (DARPL).

Gallai ymchwil yn y dyfodol estyn beirniadaeth Elliott drwy holi pam roedd Edexcel ac OCR wedi ymateb i'r alwad am newid, ond nid felly CBAC - er y gellid dadlau bod Llywodraeth Cymru wedi dangos mwy o ymrwymiad, ac ymrwymiad mwy dybryd, i bolisïau gwrth-hiliol na San Steffan.

## *6. Casgliad*

Mae diffyg amrywiaeth yn golygu bod plant nad ydynt yn arddel hunaniaeth ethnig Gwyn yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli mewn testunau, ac mae hyn yn effeithio'n negyddol ar eu hymdeimlad o berthyn, ei golwg o'r byd, eu hunanddelwedd, eu perthynas â darllen, a'u cyrhaeddiad addysgol (Williams 4-8, 22, Elliott 58, Hefflin a Barksdale-Ladd 810). Yn y cyfamser, mae plant sy'n Wyn yn dal i fod yn anwybodus am wir amrywiaeth a bywydau eu cyfoedion, yn llai tebygol o allu datblygu empathi tuag at bobl sydd y tu allan i'w grŵp nhw eu hunain ac mae eu safbwyntiau negyddol amdanynt neu eu rhagfarnau diarwybod yn llai tebygol o gael eu herio (Elliott et al. 31, Booth a Lim 71-2, Ramdarshan Bold 10-14, 188-9). Ar hyn o bryd, nid yw astudiaethau llenyddol mewn ysgolion yn cyflawni eu potensial i gyfrannu at gyflawni'r polisïau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y cyflwyniad, ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022); pwyslais *Cwricwlwm i Gymru* ar ddatblygu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd', a 'dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r … cymdeithas ddynol' (dyfynnwyd yn Williams 1, 5, 17-18); ac addysgu gorfodol hanesion a phrofiadau BAME (a gyflwynwyd mewn ymateb i adroddiad Williams).

Nid yw'n syndod bod manylebau arholiadau a byrddau arholi yn cael eu crybwyll dro ar ôl tro mewn perthynas â'r dewis o destunau (4.6, hefyd Smith). Pe buasent hwy yn ehangu amrywiaeth byddai hynny yn

gorfodi newid sylweddol yn yr ystafell ddosbarth ar y lefelau hyn o addysg uwchradd. Nid yw'r amrywiaethu sydd ar y gweill gan fyrddau arholi yn ddigon mawr eto i ganiatáu i athrawon lunio cwricwlwm amrywiol (Elliott 4). Mae Elliott yn cynnig y cafeat ychwanegol bod gwahaniaeth go iawn yn cael ei wneud, nid yn unig trwy amrywiaethu rhestrau testunau, ond trwy amrywiaethu pa destunau yr ysgrifennir amdanynt wrth asesu (25). Er enghraifft, mae'n hanfodol dileu unrhyw syniad ei bod yn anodd ysgrifennu'n llwyddiannus am awduron a thestunau amrywiol mewn asesiad, ac y bydd myfyrwyr sy'n eu dewis dan anfantais, er mwyn sicrhau y cânt eu dewis (gweler hefyd Elliott ar yr ensyniad bod hil yn ychwanegu elfen o anhawster, 73). Nododd ein hastudiaeth ei bod yn ymddangos bod rhyddiaith yn cael ei ddiffinio'n gul gan fyrddau arholi a dewisiadau athrawon CA3 fel ffuglen. Mae agwedd fonolithig o'r fath at ryddiaith yn cael ei beirniadu mewn adroddiad cyfoes gan Estyn sy'n rhannu rhai enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer integreiddio gwaith ffeithiol mewn pynciau sy'n gyforiog o lenyddiaeth (13, 23). Mae lle i fyrddau arholi a rhanddeiliaid archwilio a fyddai cynnwys mwy o amrywiaethau o ryddiaith, megis cofiant, ysgrifau teithio, newyddiaduraeth, a gwaith ffeithiol creadigol arall, ar gyfer addysgu ac asesu llenyddiaethau (nid iaith yn unig, lle mae defnyddio testunau ffeithiol wedi ennill ei blwyf i raddau mwy) yn hyrwyddo amrywiaeth.

O ran y berthynas rhwng amrywiaeth a phwy sy'n dewis y testunau, mae ein harolwg yn dangos bod hyn yn cael ei wneud fwyaf gan athrawon unigol a phenaethiaid adran, ac yna i raddau llai trwy ddulliau cydweithredol. Gwyn gan mwyaf yw'r proffesiwn addysgu, a hynny hyd yn oed yn fwy amlwg mewn Llenyddiaeth Saesneg – ffaith a nodwyd mewn cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg (Williams 4–8, 12, Elliott et al. 4). Yn 2019, nododd dros 88 y cant o'r 35,545 o athrawon ar y gofrestr yng Nghymru hunaniaeth Prydeinwyr Gwyn: dim ond 3 y cant a nododd grŵp ethnig arall. Nid oedd hunaniaeth ethnig yr 8 y cant a oedd yn weddill yn hysbys (Lester a Price, 11). Gallai amrywiaethu'r proffesiwn addysgu yng Nghymru gynnig rhywfaint o botensial cadarnhaol ar gyfer amrywiaethu testunau, er nad yw'r gyfran sylweddol uwch o athrawon llenyddiaeth benywaidd wedi arwain yn unffurf at gynrychiolaeth well o awduron benywaidd mewn ystafelloedd dosbarth, ac ni ddangoswyd chwaith bod gweithlu amrywiol yn arwain yn uniongyrchol at gynnwys amrywiol mewn sectorau eraill (Ramdarshan Bold 84–5). Byddai cynnwys disgyblion wrth ddewis testunau, ar y sail

eu bod yn grŵp mwy amrywiol nag athrawon, yn cynnig ateb rhannol unwaith eto, am resymau tebyg. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan bobl ifanc yn dangos bod y mwyafrif llethol yn cefnogi cynrychiolaeth amrywiol yng nghwricwlwm yr ysgol (Williams 8, Elliott et al. 7).

Canfu Elliott et al., o ran athrawon, mai'r rhwystrau mwyaf wrth addysgu testunau mwy amrywiol yw: amser [i baratoi ac addysgu], arian, gwybodaeth pwnc, hyder athrawon (6). Mae rhestr Williams yn hynod debyg: 'Amser, Adnoddau, Cymhwysedd, Gwybodaeth a Hyder' (9). Mae cyllid ar gyfer prynu llyfrau newydd (yr agwedd 'arian' ac 'adnoddau' ar destunau amrywiol sydd newydd gael eu cyfeirio atynt) yn hanfodol, er nad yw'n datrys y sefyllfa gyfan (Elliott, Elliott et al., Smith 251). Mynegodd sawl cyfranogwr yn ein harolwg eu bod yn gwerthfawrogi cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn yn ystod y pandemig (4.6). Ond wedyn, rhaid penderfynu sut i ddod o hyd i destunau amrywiol i wario arian o'r fath arnynt (sef yr agwedd 'gwybodaeth' a nodir uchod). Mae'r ymchwil bresennol yn dweud bod darganfod testunau Cymraeg ac amrywiol yn broblem. Mae rhai adnoddau ar gael gan fentrau megis rhestrau llyfrau amrywiaeth Cyngor Llyfrau Cymru (sy'n cwmpasu cynrychiolaeth BAME ac anabledd) a 'Casgliad Darllen er mwyn Empathi Cymru' yr Empathy Lab. Mae'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd ar-lein yn ffynhonnell wybodaeth arall, er eu bod yn tueddu i fod yn Saesneg (Rosser 9, 13). Soniodd nifer o'n cyfranogwyr am ddylanwad siopau llyfrau (gweler hefyd Rosser 33, Cyngor Llyfrau Cymru 10, Elliott et al 38) ac ymgyrchoedd fel Mae Bywydau Du o Bwys wrth ddewis testunau newydd ac amrywiol i'w haddysgu (mae Ramdarshan Bold yn rhestru ymgyrchoedd perthnasol eraill, 90). Yn Lloegr, recriwtiodd y rhaglen Lit in Colour Pioneers 134 o ysgolion a rhoi copïau iddynt o destun gosod amrywiol a ddewiswyd o'r newydd gan eu hathrawon, ynghyd ag adnoddau a hyfforddiant ar gyfer addysgu'r testun, a oedd yn hollbwysig (Elliott et al 32). Mae Edexcel hefyd wedi ennyn canmoliaeth am gefnogi ei restr amrywiol gyda set o adnoddau, megis cynlluniau gwaith, i gyd-fynd â'i destunau newydd (Elliott 73). Mynegodd Rosser a Williams fod prinder, curadu gwael, ac ansawdd amheus o ran adnoddau i gefnogi rhanddeiliaid mewn llenyddiaeth ac addysg plant yng Nghymru. Maent ill dau yn ategu eu beirniadaeth gydag argymhellion i lywio newid. Gallai sicrhau bod adnoddau fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â thestunau amrywiol ar gael gyfrannu at dorri'r cylch dieflig sy'n gweld testunau poblogaidd yn denu mwy o adnoddau, ac felly parhad yn eu haddysgu (Elliott ac Olive, 2019).

Byddai hyfforddiant i athrawon (sef yr elfennau 'cymhwysedd' a 'hyder' uchod), gan ddechrau gyda phenaethiaid adran efallai – gan eu bod yn chwarae rhan sylweddol wrth wneud penderfyniadau unigol a grŵp am destunau a addysgir – yn cyfrannu at unioni'r sefyllfa. Nododd athrawon llenyddiaethau Safon Uwch yn ein hastudiaeth fod eu gwybodaeth a'u harbenigedd eu hunain yn effeithio ar eu dewis o destunau, a'u bod yn dewis testunau a phynciau yr oeddent yn sicr yn eu cylch (4.6). Yn wir, mae ymchwil yn y DU yn dangos bod athrawon yn aml yn dewis llyfrau roedden nhw'n eu darllen yn blant a/neu yn eu hastudio fel rhan o'u haddysg eu hunain (Cremin et al 69, Elliott 2016). Mae diffyg gwybodaeth am destunau amrywiol yn cyfrannu at lesgedd o ran testunau ac yn cynnal y patrwm diofyn Gwyn. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod newid sylweddol wedi bod o gwmpas amrywiaeth yng Nghymru o ran hyfforddiant athrawon, eu dysgu proffesiynol, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt – megis gwneud addysgu am hanes a phrofiadau BAME yn fandadol – ers casglu'r data hyn. Ar lawer cyfri digwyddodd hyn yn sgil y pryderon a fynegwyd yn adroddiad Williams am y proffesiwn addysgu, hyfforddiant athrawon ac agweddau negyddol posibl ar ymreolaeth athrawon yn y Cwricwlwm newydd i Gymru (9, 18, 32, 34, 37). Er enghraifft, 'sefydlwyd prosiect dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL) mewn ymateb i argymhellion y gweithgor [Cwricwlwm Newydd Williams] mewn perthynas â dysgu proffesiynol'. Mae'r prosiect yn pwysleisio rôl arweinwyr ysgolion o ran gweithredu addysg sy'n wrth-hiliol ac amrywiol. 'Nod DARPL yw darparu model dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes addysg i feithrin dealltwriaeth o ymarfer gwrth-hiliol a'i ddatblygu' (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'n cynnwys digwyddiadau byw a rhithwir gyda llunwyr polisi, darparwyr AGA, consortia ysgolion rhanbarthol (a fydd yn cyrraedd yr ysgolion, y timau arweinwyr a'r athrawon ynddynt yn ôl pob tebyg); cyflwyniadau cynadleddau; adnoddau fideo ac ysgrifenedig (ar Hwb, World Education Summit, a gwefan DARPL, e.e. ei lyfrgell a gwybodaeth gryno am ddysgu proffesiynol); cyfrifon cyfryngau cymdeithasol; yn ogystal â doethuriaeth a gynlluniwyd i olrhain ei effaith gychwynnol. Yn wir, bydd ymchwil bellach yn hanfodol er mwyn deall maint a natur yr effaith y mae'r newidiadau hyn – ynghyd â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac MA Addysg (Cymru) Cenedlaethol – wedi'i chael ar addysgu llenyddiaethau yng Nghymru ers i'n gwaith casglu data ddod i ben yn haf 2022.

Mynegodd ein hathrawon ddiddordeb yn natur gyfoes testunau, testunau wedi eu hysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau, ac ehangu gorwelion myfyrwyr. Dylai'r amcanion hyn gyd-fynd yn gynhyrchiol â'r hyn y mae Bernardine Evaristo yn ei alw yn amrywiaeth amlhiliol cynyddol mewn testunau a chael cyhoeddwyr i gyfleu lleisiau sy'n adlewyrchu'r genedl yn well (Elliott et al., 4). Fodd bynnag, os caiff ei ddiffinio yn rhy gul, bydd pwyslais rhai athrawon ar allu myfyrwyr i uniaethu â'r cymeriadau a'r cynnwys, yn ogystal ag ar destunau 'cynefin', 'lleol', a 'Chymraeg/Cymreig' yn peri rhwystr tan y bydd mwy o amrywiaeth yn y byd cyhoeddi Cymraeg/Cymreig (Williams 10). Mae camau diweddar i hyrwyddo hyn yn cynnwys cynlluniau strategol Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, gan gynnwys y cyntaf yn blaenoriaethu 'cynrychiolaeth a chydraddoldeb yn y sector llenyddiaeth' (4) a'r ail yn cefnogi 'cyhoeddwyr sy'n gallu dangos eu hymrwymiad i fuddsoddi mewn cynnwys, awduron a fformatiau amrywiol' (6). Dywedodd Cyngor Llyfrau Cymru yn eu Cynllun Strategol yn 2021 nad yw'r sector 'yn adlewyrchu ein cymdeithas yn ddigonol'; gwnaethant gydnabod rhwystrau strwythurol; a gwnaethant ymrwymo i 'addasu dulliau cydnabyddedig, fel interniaethau â thâl wedi eu neilltuo i grwpiau penodol neu gymorth cychwynnol i ymsefydlu, er mwyn cynyddu cynrychiolaeth yn ein diwydiant' (11). Bu iddynt hefyd gyflwyno'r ymgyrch rhoddion llyfrau 'Caru Darllen Ysgolion' i hybu mynediad disgyblion at lenyddiaeth amrywiol a deniadol o ansawdd uchel sydd wedi'i gwreiddio yng Nghymru a thu hwnt. Ymhlith y mentrau eraill mae prosiect Llenyddiaeth Cymru, Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli, a'r rhaglen Cynrychioli Cymru i ddatblygu awduron newydd; cynllun tebyg Mudiad Meithrin sef AwDUra; a'r ymgyrch AwDUron i ariannu cyfieithu testunau amrywiol i'r Gymraeg i ateb y galw amdanynt gan ysgolion. Disgrifir hwn ar eu gwefan fel mesur dros dro wrth aros i ragor o awduron Du Cymraeg a lleisiau Cymraeg ymylol eraill i ddod i'r amlwg[16]. Mae Melanie Ramdarshan Bold yn dadlau bod diwydiant cyhoeddi Gwyn gan mwyaf a phroses rheoli mynediad (90 y cant mewn arolwg yn 2017) yn effeithio'n negyddol ar amrywiaeth llyfrau, ond dywed hefyd fod diffyg tystiolaeth bod mentrau amrywiaeth yn y sector yn llwyddiannus ac mae'n ein hatgoffa na ddangoswyd bod gweithlu amrywiol yn arwain at gynnwys amrywiol (16, 83, 84–5).

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai cyfleoedd i Gymru nad ydynt yn bodoli yn y sector cyhoeddi Eingl-Americanaidd, sy'n cael ei

ddominyddu gan nifer fach o uwch-gwmnïau cyfryngau byd-eang mawr yn gweithredu fel porthor i'r sector (Ramdarshan Bold 74). Yr awgrym yw bod mwy o gwmnïau cyhoeddi llai, yn enwedig rhai annibynnol, mewn sefyllfa well i hyrwyddo amrywiaeth. Mae'r dylanwad ar gyhoeddwyr Cyngor Llyfrau Cymru, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, yn anarferol o'i gymharu â sectorau cyhoeddi llawer o wledydd a gellid ei ddefnyddio'n well i feithrin llyfrau Cymraeg mwy amrywiol a'u hyrwyddo. Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru gyda'r sefyllfa hon mewn golwg, dangosodd ymchwil Rosser ymatebwyr yn gofyn am fwy o lyfrau i ferched nad ydynt yn binc, yn sôn am geffylau neu dywysogesau ac yn llawn glityr, a mwy o straeon/hanesion o bob cwr o'r byd (14–15, 21). Mae Rosser yn dadlau bod dyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch addysg, pobl ifanc, a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n cynnig enghreifftiau o groestoriadau rhwng argaeledd llenyddiaeth a'r tebygolrwydd o gyflawni nodau polisi. Mae'n ysgrifennu bod mynediad hawdd i amrywiaeth o lyfrau sy'n apelio at ddarllenwyr ifanc o gefndiroedd amrywiol yn hanfodol i greu "Cymru fwy cyfartal" (Deddf Llesiant, 2015) (6–7).

Wrth ysgrifennu am lyfrau lluniau i blant o Awstralia, mae Emily Booth a Rebecca Lim yn awgrymu y dylid gweld amrywiaeth isel o ran rhywedd ac ethnigrwydd mewn testunau nid yn gymaint â diffyg amrywiaeth ond yn ormodedd o gynrychioliadau o ddemograffig cul iawn (73). Mae ein hymchwil wedi dangos gormodedd o gynrychioliadau o awduron Gwyn gwrywaidd mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Ar ben hynny, mae geiriau Booth a Lim yn atgof defnyddiol nad yw amrywiaeth yn cael ei gyflawni trwy hybu cynrychioliadau cul iawn, hyd yn oed pan fyddant yn cynnwys awduron a chymeriadau amrywiol. Wrth i bolisi addysg sydd â'r potensial i unioni hyn gael ei weithredu mewn ysgolion ledled Cymru, mae'n hanfodol nad yw amrywiaethu llenyddiaethau yn cael ei wneud trwy adrodd un stori neu ddibynnu ar destunau pynciau llosg e.e. am fenywod dan orthrwm neu gaethwasiaeth pobl Ddu, ond ei fod yn adlewyrchu gweledigaethau lluosog o fywydau bob dydd a phobl gyffredin (Boehmer a Lombard, 117, Williams 8, 33).

## *Cyfeiriadau*

Arslan, G., et al. (2022) 'Benefits of Positive Psychology-Based Story Reading on Adolescent Mental Health and Well-Being', *Child Indicators Research*, 15, 781–93.

Bleiman, B. (2020) *What matters in English teaching: collected blogs and other writing.* London: English and Media Centre.

Boehmer, E., a Lombard, E. (2019) 'Publishing, the Curriculum and Black British Writing Today', *Wasafiri*, 34(4), 115–21.

Booth, E. ac R. Lim. (2021) 'The Illusion of Inclusion: Disempowered "Diversity" in 2018 Australian Children's Picture Book', *New Review of Children's Literature and Librarianship*, 27(2), 122–43.

Broady, E. (2020) 'Language learning in the UK – taking stock', *The Language Learning Journal*, 48(5), 501–7.

CLPE. *CLPE: Reflecting Realities—A Survey of Ethnic Representation Within UK Children's Literature 2017.* Gw.: https://clpe.org.uk/library-and-resources/research/reflecting-realities-survey-ethnic-representation-within-uk-children (cyrchwyd 1 Awst 2023).

CLPE. *CLPE: Reflecting Realities—Survey of Ethnic Representation Within UK Children's Literature 2017–2021.* Gw.: https://clpe.org.uk/research/clpe-survey-ethnic-representation within-uk-childrens-literature-2017-2022-november-2022 (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Cremin, T., M. Mottram, E. Bearne, a P. Goodwin. (2008) 'Exploring teachers' knowledge of children's literature', *Cambridge Journal of Education*, 38(4), 449–64.

Cyngor Llyfrau Cymru (2021) Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr. D.d. Gw.: https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2021/11/Cynllun-Strategol-2022-2027-P.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

DARPL. *Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Ysgolion: Canllaw Ymarferol i Arweinwyr Ysgol yng Nghymru.* Gw.: https://darpl.cymru/wp-content/uploads/2023/01/DARPL-Creu-Diwylliant-Gwrth-hiliol-mewn-Ysgolion-%E2%80%93-Canllaw-Ymarferol-i-Arweinwyr-Ysgol-yng-Nghymr.pdf (cyrchwyd 30 Ionawr 2023).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Chwefror 2015. Gw.: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Dyer, L. (2010) 'Setting up a Reading Group', *Mental Health Practice*, 13(8), 21–3.

Elliott, V. (2016) '"Study What You Most Affect": Beginning Teachers' Preparedness To Teach Shakespeare', *CEA Critic*, 78(2), 199–212.

Elliott, V. (2017) 'Gender and the Contemporary Educational Canon in the UK', *International Journal of English Studies*, 17(2), 45–62.

Elliott, V. (2021) *Knowledge in English: Canon, Curriculum and Cultural Literacy.* London: Routledge.

Elliott, V., ac Olive, S. (2023) 'Secondary Shakespeare in the UK: pedagogies and practice', *Changing English*, 30(4), 402–13.

Elliott, V., ac Olive, S. (2019) 'Secondary Shakespeare in the UK: What Gets Taught and Why?', *English in Education,* 55(2),102–15.

Elliott, V., Nelson-Addy, L., Chantiluke, R., Courtney, M. (2021) *Lit in Colour: Diversity in Literature in English Schools*. London: Penguin & Runnymede Trust.

Estyn (2023) *Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10–14 mlwydd oed*. 4 Mai 2023. Gw.: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-05/Datblygu%20medrau%20darllen%20Saesneg%20disgyblion%20o%2010-14%20mlwydd%20oed.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Fenn, R. (2022a) *Balancing the Books: An Analysis of Gender Bias in the Authorship of Literature Texts Taught at KS3 in England*. D.d. Gw.: https://endsexisminschools.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/Balancing-the-Books-Gender-Bias-in-the-KS3-English-Curriculum-1.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Fenn, R. (2022b) 'Invisible Women: Gender Bias in the English Curriculum', *Teaching English*, 28, 26–9.

Goodwyn, A. (2012) 'The Status of Literature: English teaching and the condition of literature teaching in schools', *English in Education*, 46(3), 212–17.

Gorard, S., Rees, G. a Salisbury, J. (2001) 'Investigating the Patterns of Differential Attainment of Boys and Girls at School', *British Educational Research Journal*, 27(2), 125–39.

Hartman, P. (2006) 'Outspoken tomboys and arrogant women: four 10th-grade girls' talk about female characters in English class', *The Women in Literacy and Life Assembly*, 14(1), n.p.

HMSO (1985). Education for all, the report of the Committee of Inquiry into the Education of Children from Ethnic Minority Groups (The Swann Committee Report) London: HMSO.

HMSO (1989). The Cox Report: English for ages 5 to 16. London: HMSO.

Hefflin, B. a M. Barksdale-Ladd. (2001), 'African American Children's Literature That Helps Students Find Themselves: selection guidelines for K-3', *The Reading Teacher*, 54(8), 810–19.

Kneen, J., Chapman, S., Foley, J., Kelly, L., Smith, L., Thomas, H., a Watson, A. (2022) 'Teaching Key Stage 3 literature: the challenges of accountability, gender and diversity', *Literacy*, 56(4), 371–85.

Kneen, J. (2020) *What Literature Texts are Being Taught in Years 7 to 9?* D.d. Gw.: https://ukla.org/funded_projects/what-literature-texts-are-being-taught-in-years-7-to-9/ (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Lester, B. a R. Price. (2020) *Ethnic minority representation within the school workforce in Wales: Phase 2 report for the Welsh Government*. Ebrill 2020. Gw.: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents-eng/policy-and-research/368 ethnic-minority-representation-within-the-school-workforce-in-wales/file (cyrchwyd 23 Tachwedd 2023).

Loh, C.E., Sun, B. a Majid, S. (2020) 'Do girls read differently from boys? Adolescents and their gendered reading habits and preferences', *English in Education*, 54(2), 174–90.

Llenyddiaeth Cymru. (2022). Cynllun Strategol 2022-25. D.d. Gw.: https://www.llenyddiaethcymru.org/cynllun-strategol-hafan/cynllun-strategol-prif-dudalen/prif-ddogfen/ (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau Statudol Drafft Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.* Ebrill 2019. Gw.: https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Llywodraeth Cymru (2021) *Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru* 29 Tachwedd 2022. Gw.: https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Llywodraeth Cymru (2019) *Cwricwlwm i Gymru.* D.d. Gw.: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.* 17 Ionawr 2023. Gw.: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) *Adroddiad Blynyddol ar Weithredu'r Argymhellion yn Adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd.* 21 Mehefin 2022. Gw.: https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-ar-weithredur-argymhellion-yn-adroddiad-y-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-html (cyrchwyd 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2023) *Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol.* 17 Ionawr 2023. Gw.: https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/arwain-dysgu-proffesiynol/ymchwil-ac-ymholi/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Olive, S., Davies, M. a Maelor, G. *Addysgu Llenyddiaethau yn ystod y Pandemig Byd-eang: Effeithiau ar Ysgolion Uwchradd yng Nghymru*. Gw.: https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/arwain-dysgu-proffesiynol/ymchwil-ac-ymholi/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol

Ramdarshan Bold, Melanie. *Inclusive Young Adult Fiction*. London: Palgrave, 2019.

Rosser, S. (2017) *Survey of Books for Children and Young People: Final Report*. 20 Gorffennaf 2017. Gw.: https://llyfrau.cymru/wp-content/uploads/2021/01/Rosser_Report_-_Survey_of_Books_for_Children_and_Young_People_-_December_2017.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2023).

Sellers, C. (2019). '"Fitting in" and "Standing out": The Peer Group and Young People's Development of Reader Identity'. *British Journal of Sociology of Education*, 40(7), 938–52.

Smith, K. (2023) *'I was Radically Both': Girls Reading Gender in 19th Century GCSE English Literature Set Novels.* PhD thesis, University of York, York.

Stephens, M. gol. (2007) *Poetry 1900-2000*. Cardigan: Parthian.

Williams, C. (2021) *Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd*. 19 Mawrth 2021. Gw.: https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm (cyrchwyd 1 Awst 2023).

## *Notes*

1 Roedd yr amserlen ar gyfer cynnal yr adroddiad yn diystyru edrych ar gymeriadau hefyd. Rydym yn bwriadu gwneud hyn mewn ymchwil yn y dyfodol.

2 Mae Booth a Lim yn gwneud yr un ddadl yng nghyd-destun Awstralia.

3 Mewn astudiaethau blaenorol, cafodd y sector ysgolion annibynnol ei orgynrychioli, nid yw hyn yn wir yma (Elliott ac Olive, 2019).

4 Rydym yn ymwybodol bod y categorïau wedi newid: fodd bynnag, roedd hwn yn opsiwn amlddewis a ddefnyddiwyd yn gyffredin ar gyfer casglu data demograffig ysgolion a ffafriwyd oherwydd cynefindra athrawon â'r set hon o gategorïau, adeg casglu'r data.

5 Yn debygol o fod yn cyfeirio at y llyfr gan Eirug Wyn, er na chafodd ei enwi gan y cyfranogwyr.

6 Ymddengys fod hyn dan deitl rhannol neu deitl anghywir, er bod y sector cynradd yn defnyddio cyfres Coeden Ddarllen Rhydychen.

7 Mae'n debygol bod hyn yn cyfeirio at destunau a gasglwyd gan Peter Berresford Ellis (2002).

8 Hwyrach mai Emyr Llywelyn ydyw (adnabyddus yn wleidyddol hefyd), er nad yw'r casgliad o straeon byrion a nodwyd ar gyfer yr ateb hwn yn cynnwys unrhyw waith ganddo. Ysgrifennodd lawlyfr i athrawon ar themâu yng ngwaith pedwar awdur Cymraeg sy'n cynnwys Eleri Llewelyn Morris. Ysgrifennodd Emyr Llywelyn gyflwyniad hefyd i rai campweithiau llenyddol Cymraeg ar gyfer disgyblion sy'n astudio mewn ysgolion uwchradd. Efallai fod yr athro'n cyfeirio at waith Morris sef 'Y Dyn yn y Parc'.

9 Mae'n debyg bod eu canfyddiad yn adlewyrchu effaith y testun yn cael ei ollwng gan sawl bwrdd arholi ar gyfer TGAU yn 2014 mewn ymateb i ymosodiadau parhaus yr Ysgrifennydd Addysg ar y pryd, Michael Gove, ar addysgu llenyddiaeth o'r tu hwnt i Ynysoedd Prydain.

10 Mae rhoi rhif penodol yn anodd yn sgil rhai camgymeriadau ymddangosiadol yn atebion yr ymatebydd.

11 Hwyach mai J. J. Williams yw'r bardd, ond mae llawer o gerddi yn ogystal â fersiynau rhyddiaith ar gyfer plant yn bodoli. Mae'r testun yn aml i'w weld mewn casgliadau o straeon gwerin.

12 Ni ddarparodd y ddau gyfranogwr a nododd iddynt addysgu darn o chwedl *Blodeuwedd* enw'r awdur. Fodd bynnag gellir tybio mai Saunders Lewis ydyw, yr addysgir ei addasiad yn fynych mewn ysgolion.

13 Mae'r testun ar gael mewn fersiynau a addaswyd gan Gareth John Bale yn 2016 ac yn flaenorol gan John Owen. Nid yw'r atebion a dderbyniwyd yn nodi pa un o'r rhain, os o gwbl, a ddefnyddiwyd.

14 Dywedodd un cyfranogwr iddynt addysgu drama Sêra Moore Williams, sef *Crash*, ond enwodd rhywun arall yr un gyfrol a'i briodoli i awdur Cymraeg arall sef Mihangel Morgan. Hwyrach bod y cyfranogwr wedi bwriadu rhestru'r ddau awdur a'u gweithiau neu ei fod wedi bwriadu enwi dim ond Williams a *Crash*, felly mae'r ateb hwn yn ansicr.

15 Mae pobl o dras Iranaidd yn cael cynnig amrywiaeth o opsiynau hunaniaeth ethnig Gwyn neu 'ryw hil arall' yng nghyfrifiad yr Unol Daleithiau / 'grŵp ethnig arall' yng nghyfrifiad y DU.

16 Ymdrinnir â rôl ddadleuol cyfieithu ac addasu ym maes cyhoeddi plant yng Nghymru yn ogystal â materion o ran ansawdd gwaith o'r fath gan Rosser (11, 23–4, 26).